COFNODION CYFARFOD COUNTY COUNCIL A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD DDYDD IAU, 5 MAWRTH, 2020

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir B Baynham (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, M J Dorrance, D O Evans, J Evans, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, A Jenner, D R Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, JG Morris, R Powell, WD Powell, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, K S Silk, D Selby, D Rowlands, D A Thomas, R G Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, A Williams, G I S Williams, D H Williams a J M Williams,

1.	YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir M Barnes, S Davies, E Durrant, H Hulme, E Jones, D Jones-Poston, P Lewis, M Mackenzie, C Mills, G Morgan, D Price, P Pritchard, L Skilton, J Wilkinson, J Williams, R Williams a S Williams.

2.	COFNODION

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.

3.	DATGANIADAU BUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

4.	CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Diolchodd y Cadeirydd i Dragontree am ddarparu’r arddangosfa o flodau yn y potiau wrth fynedfa Neuadd y Sir. Roedd hi wedi anfon manylion ei chyfarfodydd at yr Aelodau trwy'r e-bost ond fe roddodd sylw i ddyfarnu’r Barcud Arian i Cynthia Davies am ei gwaith yn helpu Ystradgynlais i ennill gwobr Cymru yn ei Blodau. Roedd hefyd wedi mynychu rownd derfynol dramâu CFfI Brycheiniog a Maesyfed. Roedd y Cadeirydd yn falch o gyflwyno tystysgrifau i Julie Davies a Helen Dolman am eu gwaith yn helpu'r Cyngor i sicrhau achrediad cenedlaethol am seibr-ddiogelwch a llywodraethiant gwybodaeth.

5.	CYHOEDDIADAU’R ARWEINYDD

Dywedodd yr Arweinydd ei bod wedi mynychu achlysur Busnes Cymru yng Nghaerberis. Nododd agoriad swyddogol Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Roedd agor yr Ysgol, ynghyd ag agor y Gaer yn golygu bod buddsoddiad o £35 miliwn wedi bod yn y dref. Cynlluniwyd buddsoddiadau pellach mewn ysgolion wrth i

achos amlinellol strategol gael ei gyflwyno am adeilad newydd i Ysgol Cedewain yn y Drenewydd ac adeilad newydd i'r ysgol ym Machynlleth. Roedd gwaith wedi dechrau ar gynllun tai cymdeithasol gwerth £5 miliwn yn Aberhonddu ac roedd rhagor o brosiectau wedi'u cynllunio a fyddai'n helpu i gyflenwi 380 o dai fforddiadwy erbyn 2025. Diolchodd yr Arweinydd i Jayne Bevan a'i thîm am yr Wyl Gyrfaoedd lwyddiannus a gynhaliwyd ar Faes Sioe Frenhinol Cymru y diwrnod cynt. Dywedodd y byddai'r Cabinet yn cyfarfod â Chabinet Henffordd ddiwedd y mis i drafod materion o ddiddordeb y naill i'r llall. Yn olaf, fe ddywedodd y byddai diwrnod datblygiad Aelodau yn cael ei sefydlu i ystyried ymateb y Cyngor i newid yn yr hinsawdd, ac y byddai trefniadau ar gyfer hynny, ynghyd â dau AS y Sir yn bresennol i gynnal arddangosfa o fusnesau Powys yn San Steffan.

6.	NEGES BRIFFIO'R PRIF WEITHREDWR

Dywedodd y Prif Weithredwr bod dau sesiwn cynghori wedi'u trefnu ar gyfer busnesau yr oedd y llifogydd wedi effeithio arnynt, yng Nghrughywel ar 10 Mawrth ac yn Llanfair-ym-Muallt ar 12 Mawrth. Byddai Swyddogion y Cyngor, ynghyd â swyddogion Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru a Llywodraeth Cymru wrth law.

Rhoddodd y Prif Weithredwr y newyddion diweddaraf i'r Cyngor ynghylch y coronafeirws. Roedd paratoadau sylweddol yn cael eu gwneud rhag ofn y byddai achosion lleol. Roedd y cyngor yn cydweithio'n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn arwain yr ymatebion a gyda bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

7.	CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

7.1. **Cwestiynau i'r Aelod Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Chludiant gan Kate Jones**

Hoffwn i holi beth y mae Cyngor Sir Powys yn ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd sy'n wynebu ein planed?

Er enghraifft:

O ran ailgylchu - i ble aiff y cyfan yn y pen draw? A yw'r cyfan yn cael ei ailgylchu mewn gwirionedd?

Rydym yn darparu gwybodaeth ar ein gwefan sy'n manylu ar le y bydd yr holl wastraff a gasglwn yn cael ei ddosbarthu, a sut y bydd yn cal ei ailgylchu. Ar wahân i ganran fechan a gaiff ei wrthod yn ystod y broses, bydd yr holl ddeunyddiau'n cael eu hailgylchu. Mae hyn wedi'i wireddu trwy'r broses adrodd i Gyfoeth Naturiol Cymru.

Gwastraff cyffredinol - sut y mae safleoedd tirlenwi'n ymdopi?

Er bod peth o'n gwastraff gweddilliol yn mynd i safleoedd tirlenwi, rydym yn dargyfeirio symiau sylweddol o'r cyfleusterau Gwastraff i Ynni. Mae hyn yn golygu nid yn unig bod ynni'n cael ei chynhyrchu o'r gwastraff, ond hefyd bod

modd echdynnu hyd yn oed rhagor o ddeunyddiau i'w hailgylchu a defnyddio'r llwch o'r gwaelod yn y diwydiant adeiladu.

Ynni Adnewyddadwy - a yw Powys yn buddsoddi mewn ffermydd gwynt, cynlluniau hydro (mae yna ddigon o law yma!), pympiau gwres o'r ddaear ac ati ...

Bargen Twf Canolbarth Cymru

Rhoddwyd cyfle i'r rhanbarth drafod Bargen Twf ar gyfer Canolbarth Cymru â Llywodraethau Cymru a'r DU. Trwy weithio mewn partneriaeth â'i gilydd, mae Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Ceredigion a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru wedi ymgymryd â rhaglen waith sylweddol hyd yma. Mae ymdrechion wedi canolbwyntio ar gasglu, profi a gwella tystiolaeth a data ac ar yr un pryd, adeiladu cydgysylltiad cryf a chefnogaeth amrediad eang o randdeiliaid, ar draws buddiannau gwleidyddol, sefydliadol a sectoraidd trwy weithdai ymgysylltu ac ymgynghoriadau. Bydd y gweithgareddau'n cefnogi'r rhanbarth gan greu achos cryf dros fuddsoddi trwy Bargen Twf Canolbarth Cymru ond hefyd yn cefnogi darganfod blaenoriaethau economaidd strategol a fydd yn sicrhau newid cynaliadwy yn economi Canlbarth Cymru. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu'r Fargen Twf a'n ffyrdd o weithio i allu ymateb yn hyblyg i bolisi ac amgylchiadau ariannu economaidd cyfnewidiol. Bydd heriau byd-eang, gadael yr UE a newidiadau gwleidyddol oll yn gofyn am hyblygrwydd.

Mae Ynni (Carbon Isel, Hydrogen a'r Economi Cylchol) yn faes ffocws i ranbarth Canolbarth Cymru ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y weledigaeth sy'n amlygu'i hun a chynllun economaidd strategol Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ac mae hefyd yn brif thema ddatblygol ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru.

Mae'r DU wedi ymrwymo i dargedau cyfreithiol rwymol i ostwng y gollyngiadau carbon o 80% erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru'n dweud ei bod am fynd ymhellach a chyrraedd sero-net erbyn 2050. Mae gan Ganolbarth Cymru adnoddau naturiol cyfoethog a fydd os cânt eu defnyddi'n gywir, yn gallu helpu'r ddwy lywodraeth fel ei gilydd i gyrraedd eu targedau. Mae ymwybyddiaeth ac effeithiau newid hinsawdd yn dod yn fwyfwy amlwg ac yn gorfodi blaenoriaethau byd-eang, cenedlaethol a lleol i weithio tuag at ddyfodol di-garbon. Mae'r angen am newid systematig yn ein ffordd o ystyried, cynhyrchu a defnyddio ynni yn y rhanbarth yn allweddol, ac yn gallu darparu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, cynorthwyo ein cryfderau sectoraidd er enghraifft gweithgynhyrchu gwerth uchel, Amaethyddiaeth, twristiaeth a chludiant, yn ogystal â chefnogi ein cymunedau a ffyniant, iechyd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae gan Canolbarth Cymru'r uchelgais i weithredu ar gyfleoedd economaidd a fydd yn codi wrth bontio o danwydd ffosil i economi carbon isel. Trwy ddefnyddio'n cyfoeth o adnoddau naturiol, ein harbenigedd mewn technoleg carbon isel, a'n sefydliadau busnes ac addysgol, byddwn yn adeiladu cadernid cynhwysol a chynaliadwy o fewn y rhanbarth.

Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ynghyd â Chynghorau Sir Powys a Cheredigion, gyda chymorth Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'r Carbon Trust wedi ymgymryd â phrosiect blwyddyn o hyd i gynhyrchu gweledigaeth ynni a chynllun gweithredu ar gyfer Canolbarth Cymru. Pan fydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu wedi'u cwblhau, dyma fydd y prif ddogfennau y bydd

rhanbarth yn eu defnyddio wrth weithio gyda phartneriaid a Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu cynigion ochr yn ochr â gweithgareddau'r fargen twf a fydd yn cyrraedd ein targedau datgarboneiddio ac yn mynd i'r afael â newid hinsawdd.
Mae'r gwaith yma'n ceisio darparu cyfeiriad strategol ar gyfer dyfodol system ynni wedi'i datgarboneiddio a fydd yn cynnwys gwres, pŵer a chludiant yng Nghanolbarth Cymru. Bydd yn diffinio'r camau i ddechrau goresgyn yr heriau a wynebwn.

Gweledigaeth Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru

"Cyflawni system ynni digarbon sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio ehangach dros y DU ac yn cyflenwi manteision cymunedol ac economaidd, yn dileu tlodi tanwydd, ac yn cysylltu Canolbarth Cymru â gweddill y DU yn well."

Blaenoriaethau Cynllun Ynni Canolbarth Cymru

Mae'r strategaeth ynni wedi nodi sawl blaenoriaeth allweddol i'r rhanbarth ei sbarduno ymlaen a blaenoriaethu gweithgarwch ar ei gyfer yn y cynllun gweithredu rhwng nawr a 2035. Datblygwyd y gweledigaethau a'r blaenoriaethau trwy'r amrywiol ddigwyddiadau rhanddeiliaid, ymgynghoriadau ac adborth ynghyd â thystiolaeth a data sylweddol wedi'i gasglu o adnoddau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

A fydd safonau ecolegol penodol yn cael eu pennu ar gyfer pob adeilad newydd i sicrhau ei fod yn carbon niwtral?

Cynnal a Chadw Cynlluniedig / Safonau Ansawdd Tai Cymru (WHQS) - Mae Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid hinsawdd am nifer o flynyddoedd. Mae hyn wedi'i gyflawni trwy osod systemau ynni adnewyddadwy, gwell manylebau ar gyfer drysau a ffenestr, a lefelau insiwleiddio newydd, gyda'r amcan o leihau gollyngiadau carbon a gwella ffyrdd o fyw ein tenantiaid. Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o ddatgarboneiddio. Fodd bynnag, ni allwn beryglu systemau cyfredol trwy sbarduno hyn i'r fath raddau fel bod tenantiaid yn dioddef tlodi tanwydd.
Tai fforddiadwy a Wood Knowledge Wales - Mae Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo i adeiladu tai effeithlon newydd ar draws y Sir gan ganolbwyntio ar ffyrdd y gall manylebau adeiladu leihau'r ôl troed carbon. Yn y rhaglen tai fforddiadwy, bydd cartrefi newydd yn cael eu datblygu sydd 16% yn uwch na rheoliadau adeiladu, cartrefi Passivhaus, adeiladau ffrâm pren, lleihad yn y defnydd o ddeunyddiau PVC, cartrefi sy'n cyrraedd EPC safon A, defnyddio ynni adnewyddadwy fel paneli solar a phympiau gwres pwmp ffynhonnell aer, a lle mae modd o fewn y gadwyn gyflenwi, defnyddio cymaint o ymgynghorwyr a chontractwyr medrus lleol â phosibl. Bydd Cyngor Sir Powys yn parhau i weithio'n gydweithredol â chydweithwyr Polisi Tai Llywodraeth Cymru i sicrhau cartrefi newydd iach a chynaliadwy ym Mhowys.

Mae Cyngor Sir Powys wedi arwain y fenter Cartrefi Cynhenid. Prosiect partneriaeth yw hwn rhwng cymdeithasau tai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Tai Cymunedol Cymru (CHC), Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi cynyddu'r defnydd o bren a gafodd ei dyfu a'i brosesu'n lleol i adeiladu cartrefi newydd. Bydd hyn yn helpu i gynnal gweithgarwch economaidd lleol ac yn cyfrannu'n bositif tuag at amgylchedd mwy cynaliadwy. Fel rhan o'i ymrwymiad i'r prosiect Cartrefi Cynhenid, mae'r cyngor

wedi mabwysiadu Polisi Annog y Defnydd o Bren. Mae hyn yn ymrwymo'r Cyngor i ddefnyddio pren yn y broses adeiladu pryd bynnag y bydd yn ymarferol gwneud hynny. Bydd y Polisi Annog y Defnydd o Bren yn cael ei ddefnyddio wrth brynu holl ddatblygiadau dai newydd y Cyngor.

Powys Werdd - Tai
Fel 'Calon Werdd Cymru' bydd Cyngor Sir Powys yn gweithio i wella cysur thermol ei gartrefi cyngor, ac ar yr un pryd bydd yn helpu i leihau ôl-troed carbon y sir.

Mae canlyniadau Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Brofiad Cwsmeriaid wedi dangos bod dros 20% o'n trigolion yn teimlo nad yw pob ystafell yn eu cartrefi'n ddigon cynnes. Mae rhaglen Powys Werdd wedi'i dylunio i gynyddu effeithlonrwydd tanwydd a lleihau tlodi tanwydd i denantiaid y Cyngor. Bydd hefyd yn adeiladu sylfaen gadarn i'r Cyngor gyfrannu tuag at fwriad Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio cartrefi ledled Cymru.

Mae'n anodd cyfrifo cost datgarboneiddio'r holl gartrefi sy'n perthyn i'r Cyngor ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae amcangyfrif bras o'r costau y mae landlordiaid eraill Cymru'n eu cyfrifo yn awgrymu y gallai fod angen i Bowys fuddsoddi £135m. Mae'r Cyngor yn ystyried peidio'n raddol â gosod systemau gwresogi tanwydd ffosil, a dechrau cynnig systemau mwy cynaliadwy, megis pympiau gwres ffynhonnell aer, a dechrau datblygu atebion 'cartref cyfan'. Bydd y cynnydd yn gwella pan fyddwn yn gwybod rhagor o fanylion am y safonau datgarboneiddio newydd posibl a'r canllawiau y mae Llywodraeth Cymru'n debygol o'u cyflwyno yn 2020.

Adeiladau Newydd

Mae gofyn i Reolau Adeiladu Cyngor Sir Powys gymhwyso'r safonau rheoliadau adeiladau cenedlaethol cyfredol i bob annedd newydd.

Safonau sylfaenol yw Rheoliadau Adeiladu, felly mae adeiladwyr anheddau newydd yn rhydd i ddylunio'u hanheddau i safon sy'n rhagori ar y rheoliadau cyfredol os dymunant.

Pam fod ein harchfarchnadoedd ym Mhowys yn DAL i ddefnyddio CYMAINT o blastig untro???

Fel Cyngor nid oes gennym reolaeth dros yr hyn a wna cwmnïau rhyngwladol fel archfarchnadoedd Powys. Fodd bynnag, gyda'r craffu cynyddol gan y cyfryngau a'r cyhoedd ers rhaglen ddogfen Blue Planet, mae archfarchnadoedd bellach yn cystadlu i leihau'r plastig a ddefnyddiant.

Pam nad oes gennym namyn llond dwrn o siopau sy'n 'ail-lenwi'? Dylai pob archfarchnad roi'r dewis i ni ail-lenwi ein siampw, sebon, hylif golchi llestri, powdr golchi dillad, pasta, reis, coffi ac ati (gan leihau'r plastig)

Unwaith eto, nid y Cyngor sy'n rheoli hyn. Bydd grymoedd y farchnad yn rheoli a fydd siopau'n gwneud hyn ai peidio, ac ni fyddant yn gwneud hynny oni bai y bydd y cyhoedd yn galw amdano.

Dewch ymlaen, Powys, dylai ein sir doreithiog werdd fod yn arwain y ffordd i Gymru a gweddill y DU ar newid hinsawdd.

Da chi, buddsoddwch yn y diwydiant coedwigaeth. Mae angen plannu rhagor o goed i amsugno rhagor o CO2 a gollwng rhagor o ocsigen i'r awyr. Mae digon o arwynebedd gan Bowys. Gadewch i ni fynd ati i'w plannu.

Ydych chi am sicrhau bod newid hinsawdd a gwyddor amgylcheddol yn thema allweddol yn ein system addysg o'r adeg cyn-ysgol hyd at y cyfnod prifysgol?

Rydym yn annog ysgolion i ymgorffori ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol yn y cwricwlwm trwy gynnal amrediad o weithgareddau. Rydym hefyd yn annog llais ein holl ddisgyblion yn y dosbarth trwy addysgeg gyfranogol a thrwy eu cynghorau ysgol. Mae gan bob ysgol gyngor ysgol, ac mae gan y rhan fwyaf o ysgolion eco-bwyllgor hefyd. Mae llais disgyblion yn elfen bwysig yn fframwaith Estyn ar gyfer arolygu ysgolion ac mae'n rhywbeth y mae swyddogion gwella ysgolion yn eu hyrwyddo mewn ymweliadau ysgol. Byddwn hefyd yn ystyried y cyhoeddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru 'The Right Way – A Children's Rights Approach for Education in Wales'. (Mai 2019)
Ar y lefel gynradd mae sawl enghraifft o newid hinsawdd a dinasyddiaeth gyfrifol o ran ailgylchu, defnydd o ynni wedi'i ymgorffori mewn unedau gwaith, ond hefyd trwy eu clybiau eco - mae gan rai o'n hysgolion (er enghraifft Pontnewydd-ar-Wy, y Gelli Gandryll, ac yn y sector uwchradd Crughywel a Llanidloes) ddyfarniad eco platinwm.
Mae hyn yn digwydd hefyd yn yr ysgolion uwchradd gyda chlybiau eco, ond mae'n cael ei gynnwys yn helaeth mewn sawl maes pwnc:

- Daearyddiaeth a Gwyddoniaeth (pob cyfnod allweddol) – y gwyddoniaeth y tu ôl i newid hinsawdd (achosion naturiol a dynol) ond yn anad dim sut i fynd i'r afael â'r problemau – lliniaru ac addasu. Hefyd trafodir ynni adnewyddadwy ac ynni anadnewyddadwy yn helaeth.
- Addysg Bersonol / a Chymdeithasol (ABaCh) - dinasyddiaeth
- Y Fagloriaeth Gymreig - fel rhan o'r her sgiliau Dinasyddiaeth Fyd-eang lle bydd disgyblion yn aml yn gweithio'n annibynnol neu mewn grwpiau i feddwl am gynlluniau/dulliau i ymladd effeithiau newid hinsawdd.
- Enghraifft dda arall yw'r dasg gyfoethog a wnaeth YU Crughywel ar leihau'r defnydd o blastig fel rhan o'r pedwar diben fel dinasyddion byd-eang. Aethant ati i lanhau traeth ar ôl astudio effaith plastig ar weoedd bwyd. Ym maes Dylunio a Thechnoleg, buont yn cynhyrchu dillad o ddeunyddiau gwastraff a thrwy ddatblygu ynni adnewyddadwy. Bydd gan ysgolion eraill enghreifftiau o dasgau cyfoethog tebyg hefyd.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

7.2. **Cwestiynau i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Amgylchedd gan Ann Rooney Evans**

Beth fydd y Cyngor yn ei wneud i ysgogi a chefnogi cynlluniau arbrofol yn y canolfannau ailgylchu lle gall trigolion fynd ag unrhyw eitemau sy'n ddefnyddiol, yn hytrach na'u taflu ymaith yn y biniau ailgylchu neu

dirlenwi; er mwyn cefnogi hierarchaeth Arbed, Ailddefnyddio ac Ailgylchu?

Byddai hyn yn gam gwerthfawr tuag at economi gylchol. Byddai'n helpu i normaleiddio'r arfer o gynnig pethau i'w hailddefnyddio, yn hytrach na'u taflu. Rwy'n gwaredu ac mae'n chwith gweld y deunyddiau hollol dderbyniol sy'n cael eu taflu ymaith y gellid eu hailddefnyddio. Mae'n rhaid bod hyn yn peri i'r staff yn y ganolfan ailgylchu hefyd deimlo'n rhwystredig. Gallech ofyn am roddion (gwirfoddol) yn gyfnewid am eitem. Mae cynlluniau tebyg mewn ardaloedd eraill sydd wedi goresgyn unrhyw heriau canfyddedig ynghylch iechyd a diogelwch, neu hyfforddiant staff.

Ymateb
Mae ein Canolfannau Gwastraff o'r Cartref ac Ailgylchu yn cael eu rhedeg dan gontract, ac mae'r contractwyr wrthi'n treialu cynllun ailddefnyddio o'r fath yn y safle newydd yn y Drenewydd gyda grwp cymunedol lleol. Adeiladwyd sied pwrpasol ar y safle at y diben yma.

Mae lle yn ffactor sy'n cyfyngu ar lawer o'n safleoedd, gan fod siopau ailddefnyddio'n boblogaidd ymhlith y cyhoedd, ac mae hyn yn gallu arwain at dagfeydd yn y cyfleusterau. Ymhlith yr opsiynau eraill yw mynd â'r deunydd i'w ailddefnyddio oddi ar y safle, a dyma sy'n digwydd yn ein safle yng Nghwm-twrch Isaf.

Mae ardal eitemau i'w hailddefnyddio yn Trallwng, ac mae'r incwm sy'n cael ei gynhyrchu'n cael ei roi i gymunedau lleol.

Y cwestiwn atodol oedd

Pryd fydd canlyniadau'r cynllun arbrofol yn y Drenewydd yn hysbys ac yn cael eu cyhoeddi, a chynlluniau'n cael eu creu i roi'r rhain neu ddatrysiadau eraill ar waith ar safleoedd eraill, megis Aberhonddu? A beth yw'r meini prawf ar gyfer dyfarnu llwyddiant? Roedd yr ateb i'm cwestiwn yn swnio fel pe byddai cynnydd yn y traffig yn sgil y galw yn broblem - gobeithio y bydd dull mwy entrepreneuraidd yn cael ei ddefnyddio er mwyn gweld hyn fel cyfle, nid problem! A wnaiff y Cyngor (trwy weithredwyr y safle) arddangos posteri a gwybodaeth ar y wefan sy'n cysylltu â'r siopau elusen a'r gwefannau ailddefnyddio sydd ar gael - er mwyn torri ar y swm sy'n dod i safleoedd ailgylchu. Hoffwn i weld y Cyngor yn gwneud mwy i ARBED ac AILDDEFNYDDIO - cyn ailgylchu.

Dywedodd yr Arweinydd bod yr Aelod Portffolio dan sylw i ffwrdd ar hyn o bryd ond y byddai ateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

7.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Amgylchedd gan Wendy Joss**

Cyhoeddodd Y Prif Weinidog Boris Johnson yr wythnos diwethaf y byddai gwaharddiad ar geir sy'n llosgi tanwydd ffosil yn cael ei orfodi bum mlynedd yn gynt na'r disgwyl gwreiddiol.

Sut y mae CSP yn bwriadu sicrhau bod trigolion y sir ac ymwelwyr yn gallu ddefnyddio pwyntiau gwefru dibynadwy er mwyn gallu buddsoddi mewn Cerbydau Trydan newydd erbyn 2035?

Dim ond 1.8 o bwyntiau gwefru cyhoeddus fesul 100000 sydd ar gael yng Nghymru.

Ymateb
Bydd nifer o bwyntiau gwefru cerbydau yn cael eu gosod yn llawer o feysydd parcio arhosiad hir y sir, yn dilyn cais llwyddiannus am arian gan y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel (OLEV) ac arian CS Powys.

Dyfarnwyd yr arian dan feini prawf a fyddai'n galluogi pwyntiau gwefru i gael eu gosod mewn ardaloedd a fyddai'n fanteisiol i drigolion nad oes ganddynt ddreif na garej, ac nad ydynt yn gallu parcio'u cerbyd trydan ar y stryd. Bydd y peiriannau gwefru hefyd ar gael i aelodau o'r cyhoedd neu ymwelwyr.

Bydd yr arian a roddwyd yn caniatáu i Bowys osod pwyntiau gwefru yn **8** o'n meysydd parcio. Mae'n arwydd o ddechrau cymal 1 ein rhaglen a fydd yn cynnwys adeiladu rhwydwaith o bwyntiau gwefru ar draws y sir, a byddwn yn ceisio dod â rhagor o arian i mewn i gynyddu'n darpariaeth yn y dyfodol.

Bydd y pwyntiau gwefru'n sicrhau bod modd i drigolion lleol a thwristiaid â cheir trydan gyrraedd pwyntiau gwefru mewn lleoliadau amrywiol ledled y sir.

Dyma'r naw maes parcio a ddewiswyd ar gyfer Cymal 1 o'r rhaglen i osod peiriannau gwefru:

- Maes Parcio'r Stryd Fawr, Llandrindod, LD1 6BG
- Maes Parcio'r Groe, Llanfair-ym-Muallt, LD2 3BL
- Maes Parcio Mount Street, Llanidloes, SY18 6BZ
- Maes Parcio Heol Maengwyn, Machynlleth, SY20 8DY
- Maes Parcio Lôn Gefn, y Drenewydd SY16 2NH
- Maes Parcio Stryd yr Eglwys, y Trallwng, SY21 7DD
- Maes Parcio Stryd Henffordd, Llanandras, LD8 2AT
- Maes Parcio Watton, Aberhonddu, LD3 7Ed

Mae hyn yn rhan o ddyhead tymor hir i greu rhwydwaith o bwyntiau gwefru i gerbydau trydan ar draws y sir, gydag amrywiaeth o bobl fel y Cyngor Sir, Llywodraeth Cymru (gwefrwyr cyflym) a'r sector Preifat yn darparu'r rhain.
Rydym wrthi'n ceisio arian grant oddi wrth Lywodraeth Cymru i gwblhau cymal 1 gan osod pwyntiau gwefru yn y lleoliadau canlynol:
Rhaeadr Gwy - Maes Parcio Lôn Dywyll
Tref-y-Clawdd - Maes Parcio Bowling Green Lane
Ystradgynlais – Maes Parcio Heol Eglwys
Y Gelli Gandryll - Maes Parcio Oxford Street
Mae cymalau pellach i'w datblygu, gan ddibynnu ar gynlluniau Cenedlaethol ehangach a'r arian sydd ar gael.

Y cwestiwn atodol oedd
Roedd fy nghwestiwn mewn ymateb i bolisi ac amserlen newydd y DU. Roedd yr 8 pwynt gwefru ym Mhowys yn seiliedig ar hen amserlen. Yn wreiddiol, fe osododd y Llywodraeth dargedau i sicrhau y byddai bron pob car a fan yn y DU yn gerbyd dim-gollyngiadau erbyn 2050, a bod y DU yn arweinydd ym maes Cerbydau Trydan a thechnolegau batri. Ond nawr ry'n ni'n sôn am 2035.

Mae'n darged uchelgeisiol, a bydd yn gwbl hanfodol ein bod yn diwallu'r galw am gynnydd mawr yn y pwyntiau gwefru sydd ar gael. Sut y mae Powys yn bwriadu cyflenwi'r targedau newydd?

Roedd y Deiliad Portffolio'n absennol, felly byddai ateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

8.	PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2020/21

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r penderfyniad ar Dreth y Cyngor ar gyfer 2020/21.

Cytunwyd y gyllideb ar gyfer 2020/21 yn y Cyngor ar 28 Chwefror 2020 a chymeradwyodd y Cyngor gynnydd o 4.8% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 fel rhan o'r gyllideb.

Mewn cyfarfod o'r Cabinet ar y 27 o Dachwedd 2019, cyfrifodd y Cyngor y symiau Sylfaen Treth canlynol ar gyfer y flwyddyn 2020/21 yn unol â Rheoliadau a wnaed o dan Adran 33 (5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

(a) Sef y swm a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2020/2021.

(b) Rhan o ardal y Cyngor:

Cymuned:

CYMUNED	Sylfaen Treth 2020-21
Abaty Cwm-hir	127.49
Aberedw	140.84
Aberhafesb	223.97
Aber-miwl a Llandysul	736.31
Banwy	321.85
Bausley gyda Chrugion	366.90
Bugeildy	379.26
Aberriw	753.24
Betws Cedewain	229.46
Aberhonddu	3510.52
Bronllys	435.38
Llanfair-ym-Muallt	1073.60
Cadfarch	451.23
Caersws	712.07
Carno	357.14
Carreghofa	316.57
Castell Caereinion	305.31
Yr Ystog	864.58

Cilmeri	237.53
Cleirwy	420.93
Cray	132.27
Crickhowell	1135.60
Cwmdu a’r Cylch	555.79
Diserth a Threcoed	554.40
Duhonw	151.61
Dwyrhiw	280.49
Erwyd	254.26
Felin-fach	379.16
Ffordun	803.59
Llanfair Llythynwg	228.46
Glantwymyn	651.48
Y Clas-ar-Wy	571.24
Glascwm	268.53
Glyn Tarell	301.12
Cegidfa	854.02
Gwernyfed	483.92
Y Gelli Gandryll	905.85
Honddu Isaf	222.68
Ceri	992.37
Tref-y-Clawdd	1321.10
Llanafan-fawr	235.63
Llanbadarn Fawr	352.05
Llanbadarn Fynydd	142.73
Llanbister	190.78
Llanbrynmair	499.47
Llanddew	120.62
Llanddewi Ystradenni	144.92
Llandinam	443.75
Llandrindod	2388.72
Llandrinio ac Arddlîn	723.75
Llandysilio	549.91
Llanelwedd	188.69
Llanerfyl	216.39
Llanfair Caereinion	795.41
Llanfechain	272.80
Llanfihangel	273.01
Llanfihangel Rhydeithon	118.12
Llanfrynach	327.94
Llanfyllin	711.58
Llangamarch	264.23
Llangatwg	564.56
Llangedwyn	196.06
Llan-gors	564.76
Llangunllo	201.14
Llangurig	379.76

Llangynidr	585.49
Llangynyw	308.99
Llangynog	198.95
Llanidloes	1195.81
Llanidloes Allanol	310.78
Llanigon	282.28
Llanrhaeadr-ym-Mochnant	593.57
Llansantffraid	719.35
Llansilin	366.60
Llanwddyn	125.80
Llanwrthwl	110.44
Llanwrtyd	396.32
Llanllŷr	583.11
Llywel	257.55
Machynlleth	871.06
Maescar	471.42
Manafon	181.81
Meifod	708.39
Merthyr Cynog	140.54
Mochdre gyda Phenystrywaid	254.07
Trefaldwyn	723.44
Nantmel	350.06
Maesyfed	234.93
Y Drenewydd a Llanllwchaearn	4342.55
Pencraig	406.28
Castell-paen	284.58
Pen-y-bont-fawr	252.08
Pen-y-bont a Llandeglau	206.62
Llanandras a Nortyn	1288.20
Rhaeadr Gwy	910.54
Llanarmon	317.46
Talgarth	741.49
Tal-y-bont ar Wysg	400.70
Tawe Uchaf	571.24
Trallong	196.26
Trefeglwys	470.97
Treflys	239.32
Tregynon	390.13
Trewern	654.37
Dyffryn Grwyne	499.22
Y Trallwng	2687.35
Hwytyn	211.10
Ysgir	258.06
Ystradfelte	254.96
Ystradgynlais	2963.56

62,396:70

sef y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol â'r Rheoliadau, fel symiau ei Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn 20202/2021, ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol. Mae **Atodiad Un** yn cadarnhau praesept 2020/21 a phrif band D ar gyfer pob Cyngor Tref a Chymuned.

3.0 Y CYFRIFO

3.1. BOD y symiau canlynol yn awr yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2020/2021 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992:

a) £470,559,254 sef y symiau cyfanredol y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32 (2) (a) i (e) o'r Ddeddf

b) £197,100,811 sef y symiau cyfanredol y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32 (3) (a) i (c) o'r Ddeddf.

c) £273,458,443 sef y faint y mae'r swm cyfanredol yn 2.1(a) uchod yn uwch na'r swm cyfanredol yn crynswth yn 2.1(b) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32 (4) o'r Ddeddf, fel yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer y gyllideb am y flwyddyn

d) £184,155,048 sef y symiau cyfanredol y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif a fydd yn daladwy am y flwyddyn i'w Gronfa Gyffredinol o ran Trethi Annomestig a ailddosbarthwyd, Grant Cynnal Refeniw, grant arbennig neu Grant ychwanegol.

e) £1,431.22 sef y swm yn 2.1(c) uchod, llai'r swm yn 2.1(d) uchod, pob un wedi'i rannu â'r swm yn 1.3(a) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33 (1) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth y Cyngor am y flwyddyn

f) £4,151,970 sef swm cyfanredol yr holl eitemau arbennig y cyfeiriwyd atynt yn Adran 34 (1) o'r Ddeddf.

g) £1,364.68 sef y swm yn 2.1(e) uchod, llai'r canlyniad a roddir trwy rannu'r swm yn 2.1(f) uchod â'r swm yn 1.3(a) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34 (2) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth y Cyngor am y flwyddyn am anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes yr un eitem arbennig yn berthnasol.

h)

BRYCHEINIOG

SIR A CHYMUNED

CYMUNED	TRETH Y CYNGOR BAND D
Aberhonddu	£1,493.38
Bronllys	£1,392.24
Llanfair-ym-Muallt	£1,456.50
Cilmeri	£1,381.04
Crai	£1,403.24
Crughywel	£1,405.19
Duhonw	£1,374.57
Erwyd	£1,386.31
Felin-fach	£1,388.42
Glyn Tarell	£1,396.23
Gwernyfed	£1,380.18
Y Gelli Gandryll	£1,422.33
Honddu Isaf	£1,369.69
Llanafan-fawr	£1,375.29
Llanddew	£1,385.41
Cwmdu a'r Cylch	£1,386.27
Llanfrynach	£1,404.32
Llangamarch	£1,405.55
Llangatwg	£1,398.93
Llan-gors	£1,393.01
Llangynidr	£1,388.59
Llanigon	£1,382.39
Llanwrthwl	£1,391.85
Llanwrtyd	£1,413.95
Llywel	£1,401.57
Maescar	£1,396.50
Merthyr Cynog	£1,399.15
Talgarth	£1,437.51
Tal-y-bont ar Wysg	£1,402.29
Tawe Uchaf	£1,417.20
Trallong	£1,373.85
Treflys	£1,379.30
Dyffryn Grwyne	£1,380.70
Ysgir	£1,377.68
Ystradfellte	£1,411.75
Ystradgynlais	£1,463.89

MALDWYN

CYMUNED	SIR A CHYMUNED TRETH Y CYNGOR BAND D
Aberhafesb	£1,391.02
Banwy	£1,382.50
Bausley gyda Chrugion	£1,388.68
Aberriw	£1,377.29

Betws Cedewain	£1,393.68
Cadfarch	£1,383.96
Caersws	£1,411.19
Carno	£1,403.05
Carreghofa	£1,399.16
Castell Caereinion	£1,404.49
Yr Ystog	£1,392.15
Dwyrhiw	£1,384.75
Ffordun	£1,401.20
Glantwymyn	£1,382.33
Cegidfa	£1,383.07
Ceri	£1,392.36
Llanbrynmair	£1,391.11
Llandinam	£1,448.95
Llandrinio	£1,389.15
Llandysilio	£1,395.14
Aber-miwl a Llandysul	£1,413.57
Llanerfyl	£1,385.94
Llanfair Caereinion	£1,414.97
Llanfechain	£1,392.17
Llanfihangel	£1,415.96
Llanfyllin	£1,411.06
Llangedwyn	£1,379.98
Llangurig	£1,376.53
Llangynyw	£1,394.45
Llangynog	£1,414.94
Llanidloes	£1,499.05
Llanidloes Allanol	£1,396.86
Llanrhaeadr-ym-Mochnant	£1,384.90
Llansantffraid	£1,391.79
Llansilin	£1,374.23
Llanwddyn	£1,434.63
Machynlleth	£1,581.66
Manafon	£1,392.18
Meifod	£1,385.95
Mochdre gyda Phenystrywaid	£1,394.20
Trefaldwyn	£1,427.74
Y Drenewydd a Llanllwchaearn	£1,543.11
Pen-y-bont-fawr	£1,416.25
Trefeglwys	£1,378.48
Tregynon	£1,403.90
Trewern	£1,396.12
Y Trallwng	£1,583.36

MAESYFED

CYMUNED	SIR A CHYMUNED TRETH Y CYNGOR BAND D
Abaty Cwm-hir	£1,393.54
Aberedw	£1,371.07
Bugeildy	£1,389.18

Cleirwy	£1,376.56
Diserth a Threcoed	£1,386.74
Llanfair Llythynwg	£1,377.81
Y Clas-ar-Wy	£1,383.94
Glascwm	£1,380.94
Tref-y-Clawdd	£1,418.73
Llanbadarn Fawr	£1,384.00
Llanbadarn Fynydd	£1,395.68
Llanbister	£1,400.99
Llanddewi Ystradenni	£1,375.72
Llandrindod	£1,440.45
Llanelwedd	£1,378.99
Llanfihangel	£1,395.16
Llangunllo	£1,383.57
Llanllŷr	£1,388.68
Nantmel	£1,396.73
Maesyfed	£1,394.28
Pencraig	£1,385.56
Castell-paen	£1,370.65
Pen-y-bont a Llandeglau	£1,389.39
Llanandras a Nortyn	£1,419.68
Rhaeadr Gwy	£1,411.90
Llanarmon	£1,405.73
Hwytyn	£1,381.18

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm yn 3.1(g) uchod symiau’r eitem neu eitemau arbennig sy’n berthnasol i’r anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a grybwyllir uchod, wedi'i rannu ymhob achos â’r swm yn 2.2 uchod, wedi’i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34 (3) o’r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o’i ardal y mae un neu ragor o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(i) Rhan o ardal y Cyngor

BRYCHEINIOG

CYMUNED				**SIR A CHYMUNED BANDIAU TRETH Y CYNGOR**					
	A	**B**	**C**	**D**	**E**	**F**	**G**	**H**	**I**
Aberhonddu	£995.59	£1,161.52	£1,327.45	£1,493.38	£1,825.24	£2,157.10	£2,488.97	£2,986.76	£3,484.55
Bronllys	£928.16	£1,082.85	£1,237.55	£1,392.24	£1,701.63	£2,011.01	£2,320.40	£2,784.48	£3,248.56
Llanfair-ym-Muallt	£971.00	£1,132.83	£1,294.67	£1,456.50	£1,780.17	£2,103.83	£2,427.50	£2,913.00	£3,398.50
Cilmeri	£920.69	£1,074.14	£1,227.59	£1,381.04	£1,687.94	£1,994.84	£2,301.73	£2,762.08	£3,222.43
Crai	£935.49	£1,091.41	£1,247.32	£1,403.24	£1,715.07	£2,026.90	£2,338.73	£2,806.48	£3,274.23
Crughywel	£936.79	£1,092.93	£1,249.06	£1,405.19	£1,717.45	£2,029.72	£2,341.98	£2,810.38	£3,278.78
Duhonw	£916.38	£1,069.11	£1,221.84	£1,374.57	£1,680.03	£1,985.49	£2,290.95	£2,749.14	£3,207.33
Erwyd	£924.21	£1,078.24	£1,232.28	£1,386.31	£1,694.38	£2,002.45	£2,310.52	£2,772.62	£3,234.72
Felin-fach	£925.61	£1,079.88	£1,234.15	£1,388.42	£1,696.96	£2,005.50	£2,314.03	£2,776.84	£3,239.65
Glyn Tarell	£930.82	£1,085.96	£1,241.09	£1,396.23	£1,706.50	£2,016.78	£2,327.05	£2,792.46	£3,257.87
Gwernyfed	£920.12	£1,073.47	£1,226.83	£1,380.18	£1,686.89	£1,993.59	£2,300.30	£2,760.36	£3,220.42
Y Gelli Gandryll	£948.22	£1,106.26	£1,264.29	£1,422.33	£1,738.40	£2,054.48	£2,370.55	£2,844.66	£3,318.77
Honddu Isaf	£913.13	£1,065.31	£1,217.50	£1,369.69	£1,674.07	£1,978.44	£2,282.82	£2,739.38	£3,195.94
Llanafan-fawr	£916.86	£1,069.67	£1,222.48	£1,375.29	£1,680.91	£1,986.53	£2,292.15	£2,750.58	£3,209.01
Llanddew	£923.61	£1,077.54	£1,231.48	£1,385.41	£1,693.28	£2,001.15	£2,309.02	£2,770.82	£3,232.62
Cwmdu a’r Cylch	£924.18	£1,078.21	£1,232.24	£1,386.27	£1,694.33	£2,002.39	£2,310.45	£2,772.54	£3,234.63
Llanfrynach	£936.21	£1,092.25	£1,248.28	£1,404.32	£1,716.39	£2,028.46	£2,340.53	£2,808.64	£3,276.75
Llangamarch	£937.03	£1,093.21	£1,249.38	£1,405.55	£1,717.89	£2,030.24	£2,342.58	£2,811.10	£3,279.62
Llangatwg	£932.62	£1,088.06	£1,243.49	£1,398.93	£1,709.80	£2,020.68	£2,331.55	£2,797.86	£3,264.17
Llan-gors	£928.67	£1,083.45	£1,238.23	£1,393.01	£1,702.57	£2,012.13	£2,321.68	£2,786.02	£3,250.36
Llangynidr	£925.73	£1,080.01	£1,234.30	£1,388.59	£1,697.17	£2,005.74	£2,314.32	£2,777.18	£3,240.04
Llanigon	£921.59	£1,075.19	£1,228.79	£1,382.39	£1,689.59	£1,996.79	£2,303.98	£2,764.78	£3,225.58
Llanwrthwl	£927.90	£1,082.55	£1,237.20	£1,391.85	£1,701.15	£2,010.45	£2,319.75	£2,783.70	£3,247.65

Llanwrtyd	£942.63	£1,099.74	£1,256.84	£1,413.95	£1,728.16	£2,042.37	£2,356.58	£2,827.90	£3,299.22
Llywel	£934.38	£1,090.11	£1,245.84	£1,401.57	£1,713.03	£2,024.49	£2,335.95	£2,803.14	£3,270.33
Maescar	£931.00	£1,086.17	£1,241.33	£1,396.50	£1,706.83	£2,017.17	£2,327.50	£2,793.00	£3,258.50
Merthyr Cynog	£932.77	£1,088.23	£1,243.69	£1,399.15	£1,710.07	£2,020.99	£2,331.92	£2,798.30	£3,264.68
Talgarth	£958.34	£1,118.06	£1,277.79	£1,437.51	£1,756.96	£2,076.40	£2,395.85	£2,875.02	£3,354.19
Tal-y-bont ar Wysg	£934.86	£1,090.67	£1,246.48	£1,402.29	£1,713.91	£2,025.53	£2,337.15	£2,804.58	£3,272.01
Tawe Uchaf	£944.80	£1,102.27	£1,259.73	£1,417.20	£1,732.13	£2,047.07	£2,362.00	£2,834.40	£3,306.80
Trallong	£915.90	£1,068.55	£1,221.20	£1,373.85	£1,679.15	£1,984.45	£2,289.75	£2,747.70	£3,205.65
Treflys	£919.53	£1,072.79	£1,226.04	£1,379.30	£1,685.81	£1,992.32	£2,298.83	£2,758.60	£3,218.37
Dyffryn Grwyne	£920.47	£1,073.88	£1,227.29	£1,380.70	£1,687.52	£1,994.34	£2,301.17	£2,761.40	£3,221.63
Ysgir	£918.45	£1,071.53	£1,224.60	£1,377.68	£1,683.83	£1,989.98	£2,296.13	£2,755.36	£3,214.59
Ystradfellte	£941.17	£1,098.03	£1,254.89	£1,411.75	£1,725.47	£2,039.19	£2,352.92	£2,823.50	£3,294.08
Ystradgynlais	£975.93	£1,138.58	£1,301.24	£1,463.89	£1,789.20	£2,114.51	£2,439.82	£2,927.78	£3,415.74

MALDWYN

CYMUNED				**SIR A CHYMUNED BANDIAU TRETH Y CYNGOR**					
	A	**B**	**C**	**D**	**E**	**F**	**G**	**H**	**I**
Aberhafesb	£927.35	£1,081.90	£1,236.46	£1,391.02	£1,700.14	£2,009.25	£2,318.37	£2,782.04	£3,245.71
Banwy	£921.67	£1,075.28	£1,228.89	£1,382.50	£1,689.72	£1,996.94	£2,304.17	£2,765.00	£3,225.83
Bausley gyda Chrugion	£925.79	£1,080.08	£1,234.38	£1,388.68	£1,697.28	£2,005.87	£2,314.47	£2,777.36	£3,240.25
Aberriw	£918.19	£1,071.23	£1,224.26	£1,377.29	£1,683.35	£1,989.42	£2,295.48	£2,754.58	£3,213.68
Betws Cedewain	£929.12	£1,083.97	£1,238.83	£1,393.68	£1,703.39	£2,013.09	£2,322.80	£2,787.36	£3,251.92
Cadfarch	£922.64	£1,076.41	£1,230.19	£1,383.96	£1,691.51	£1,999.05	£2,306.60	£2,767.92	£3,229.24
Caersws	£940.79	£1,097.59	£1,254.39	£1,411.19	£1,724.79	£2,038.39	£2,351.98	£2,822.38	£3,292.78
Carno	£935.37	£1,091.26	£1,247.16	£1,403.05	£1,714.84	£2,026.63	£2,338.42	£2,806.10	£3,273.78
Carreghofa	£932.77	£1,088.24	£1,243.70	£1,399.16	£1,710.08	£2,021.01	£2,331.93	£2,798.32	£3,264.71
Castell Caereinion	£936.33	£1,092.38	£1,248.44	£1,404.49	£1,716.60	£2,028.71	£2,340.82	£2,808.98	£3,277.14
Yr Ystog	£928.10	£1,082.78	£1,237.47	£1,392.15	£1,701.52	£2,010.88	£2,320.25	£2,784.30	£3,248.35
Dwyrhiw	£923.17	£1,077.03	£1,230.89	£1,384.75	£1,692.47	£2,000.19	£2,307.92	£2,769.50	£3,231.08

Ffordun	£934.13	£1,089.82	£1,245.51	£1,401.20	£1,712.58	£2,023.96	£2,335.33	£2,802.40	£3,269.47
Glantwymyn	£921.55	£1,075.15	£1,228.74	£1,382.33	£1,689.51	£1,996.70	£2,303.88	£2,764.66	£3,225.44
Cegidfa	£922.05	£1,075.72	£1,229.40	£1,383.07	£1,690.42	£1,997.77	£2,305.12	£2,766.14	£3,227.16
Ceri	£928.24	£1,082.95	£1,237.65	£1,392.36	£1,701.77	£2,011.19	£2,320.60	£2,784.72	£3,248.84
Llanbrynmair	£927.41	£1,081.97	£1,236.54	£1,391.11	£1,700.25	£2,009.38	£2,318.52	£2,782.22	£3,245.92
Llandinam	£965.97	£1,126.96	£1,287.96	£1,448.95	£1,770.94	£2,092.93	£2,414.92	£2,897.90	£3,380.88
Llandrinio	£926.10	£1,080.45	£1,234.80	£1,389.15	£1,697.85	£2,006.55	£2,315.25	£2,778.30	£3,241.35
Llandysilio	£930.09	£1,085.11	£1,240.12	£1,395.14	£1,705.17	£2,015.20	£2,325.23	£2,790.28	£3,255.33
Aber-miwl a Llandysul	£942.38	£1,099.44	£1,256.51	£1,413.57	£1,727.70	£2,041.82	£2,355.95	£2,827.14	£3,298.33
Llanerfyl	£923.96	£1,077.95	£1,231.95	£1,385.94	£1,693.93	£2,001.91	£2,309.90	£2,771.88	£3,233.86
Llanfair Caereinion	£943.31	£1,100.53	£1,257.75	£1,414.97	£1,729.41	£2,043.85	£2,358.28	£2,829.94	£3,301.60
Llanfechain	£928.11	£1,082.80	£1,237.48	£1,392.17	£1,701.54	£2,010.91	£2,320.28	£2,784.34	£3,248.40
Llanfihangel	£943.97	£1,101.30	£1,258.63	£1,415.96	£1,730.62	£2,045.28	£2,359.93	£2,831.92	£3,303.91
Llanfyllin	£940.71	£1,097.49	£1,254.28	£1,411.06	£1,724.63	£2,038.20	£2,351.77	£2,822.12	£3,292.47
Llangedwyn	£919.99	£1,073.32	£1,226.65	£1,379.98	£1,686.64	£1,993.30	£2,299.97	£2,759.96	£3,219.95
Llangurig	£917.69	£1,070.63	£1,223.58	£1,376.53	£1,682.43	£1,988.32	£2,294.22	£2,753.06	£3,211.90
Llangynyw	£929.63	£1,084.57	£1,239.51	£1,394.45	£1,704.33	£2,014.21	£2,324.08	£2,788.90	£3,253.72
Llangynog	£943.29	£1,100.51	£1,257.72	£1,414.94	£1,729.37	£2,043.80	£2,358.23	£2,829.88	£3,301.53
Llanidloes	£999.37	£1,165.93	£1,332.49	£1,499.05	£1,832.17	£2,165.29	£2,498.42	£2,998.10	£3,497.78
Llanidloes Allanol	£931.24	£1,086.45	£1,241.65	£1,396.86	£1,707.27	£2,017.69	£2,328.10	£2,793.72	£3,259.34
Llanrhaeadr-ym-Mochnant	£923.27	£1,077.14	£1,231.02	£1,384.90	£1,692.66	£2,000.41	£2,308.17	£2,769.80	£3,231.43
Llansantffraid	£927.86	£1,082.50	£1,237.15	£1,391.79	£1,701.08	£2,010.36	£2,319.65	£2,783.58	£3,247.51

CYMUNED				**SIR A CHYMUNED BANDIAU TRETH Y CYNGOR**					
	A	**B**	**C**	**D**	**E**	**F**	**G**	**H**	**I**
Llansilin	£916.15	£1,068.85	£1,221.54	£1,374.23	£1,679.61	£1,985.00	£2,290.38	£2,748.46	£3,206.54
Llanwddyn	£956.42	£1,115.82	£1,275.23	£1,434.63	£1,753.44	£2,072.24	£2,391.05	£2,869.26	£3,347.47
Machynlleth	£1,054.44	£1,230.18	£1,405.92	£1,581.66	£1,933.14	£2,284.62	£2,636.10	£3,163.32	£3,690.54
Manafon	£928.12	£1,082.81	£1,237.49	£1,392.18	£1,701.55	£2,010.93	£2,320.30	£2,784.36	£3,248.42
Meifod	£923.97	£1,077.96	£1,231.96	£1,385.95	£1,693.94	£2,001.93	£2,309.92	£2,771.90	£3,233.88
Mochdre gyda Phenystrywaid	£929.47	£1,084.38	£1,239.29	£1,394.20	£1,704.02	£2,013.84	£2,323.67	£2,788.40	£3,253.13
Trefaldwyn	£951.83	£1,110.46	£1,269.10	£1,427.74	£1,745.02	£2,062.29	£2,379.57	£2,855.48	£3,331.39
Y Drenewydd a Llanllwchaearn	£1,028.74	£1,200.20	£1,371.65	£1,543.11	£1,886.02	£2,228.94	£2,571.85	£3,086.22	£3,600.59
Pen-y-bont-fawr	£944.17	£1,101.53	£1,258.89	£1,416.25	£1,730.97	£2,045.69	£2,360.42	£2,832.50	£3,304.58
Trefeglwys	£918.99	£1,072.15	£1,225.32	£1,378.48	£1,684.81	£1,991.14	£2,297.47	£2,756.96	£3,216.45
Tregynon	£935.93	£1,091.92	£1,247.91	£1,403.90	£1,715.88	£2,027.86	£2,339.83	£2,807.80	£3,275.77
Trewern	£930.75	£1,085.87	£1,241.00	£1,396.12	£1,706.37	£2,016.62	£2,326.87	£2,792.24	£3,257.61
Y Trallwng	£1,055.57	£1,231.50	£1,407.43	£1,583.36	£1,935.22	£2,287.08	£2,638.93	£3,166.72	£3,694.51

MAESYFED

CYMUNED	SIR A CHYMUNED BANDIAU TRETH Y CYNGOR								
	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Abaty Cwm-hir	£929.03	£1,083.86	£1,238.70	£1,393.54	£1,703.22	£2,012.89	£2,322.57	£2,787.08	£3,251.59
Aberedw	£914.05	£1,066.39	£1,218.73	£1,371.07	£1,675.75	£1,980.43	£2,285.12	£2,742.14	£3,199.16
Bugeildy	£926.12	£1,080.47	£1,234.83	£1,389.18	£1,697.89	£2,006.59	£2,315.30	£2,778.36	£3,241.42
Cleirwy	£917.71	£1,070.66	£1,223.61	£1,376.56	£1,682.46	£1,988.36	£2,294.27	£2,753.12	£3,211.97
Diserth a Threcoed	£924.49	£1,078.58	£1,232.66	£1,386.74	£1,694.90	£2,003.07	£2,311.23	£2,773.48	£3,235.73
Llanfair Llythynwg	£918.54	£1,071.63	£1,224.72	£1,377.81	£1,683.99	£1,990.17	£2,296.35	£2,755.62	£3,214.89
Y Clas-ar-Wy	£922.63	£1,076.40	£1,230.17	£1,383.94	£1,691.48	£1,999.02	£2,306.57	£2,767.88	£3,229.19
Glascwm	£920.63	£1,074.06	£1,227.50	£1,380.94	£1,687.82	£1,994.69	£2,301.57	£2,761.88	£3,222.19
Tref-y-Clawdd	£945.82	£1,103.46	£1,261.09	£1,418.73	£1,734.00	£2,049.28	£2,364.55	£2,837.46	£3,310.37
Llanbadarn Fawr	£922.67	£1,076.44	£1,230.22	£1,384.00	£1,691.56	£1,999.11	£2,306.67	£2,768.00	£3,229.33
Llanbadarn Fynydd	£930.45	£1,085.53	£1,240.60	£1,395.68	£1,705.83	£2,015.98	£2,326.13	£2,791.36	£3,256.59
Llanbister	£933.99	£1,089.66	£1,245.32	£1,400.99	£1,712.32	£2,023.65	£2,334.98	£2,801.98	£3,268.98
Llanddewi Ystradenni	£917.15	£1,070.00	£1,222.86	£1,375.72	£1,681.44	£1,987.15	£2,292.87	£2,751.44	£3,210.01
Llandrindod	£960.30	£1,120.35	£1,280.40	£1,440.45	£1,760.55	£2,080.65	£2,400.75	£2,880.90	£3,361.05
Llanelwedd	£919.33	£1,072.55	£1,225.77	£1,378.99	£1,685.43	£1,991.87	£2,298.32	£2,757.98	£3,217.64
Llanfihangel	£930.11	£1,085.12	£1,240.14	£1,395.16	£1,705.20	£2,015.23	£2,325.27	£2,790.32	£3,255.37
Llangunllo	£922.38	£1,076.11	£1,229.84	£1,383.57	£1,691.03	£1,998.49	£2,305.95	£2,767.14	£3,228.33
Llanllŷr	£925.79	£1,080.08	£1,234.38	£1,388.68	£1,697.28	£2,005.87	£2,314.47	£2,777.36	£3,240.25
Nantmel	£931.15	£1,086.35	£1,241.54	£1,396.73	£1,707.11	£2,017.50	£2,327.88	£2,793.46	£3,259.04
Maesyfed	£929.52	£1,084.44	£1,239.36	£1,394.28	£1,704.12	£2,013.96	£2,323.80	£2,788.56	£3,253.32
Pencraig	£923.71	£1,077.66	£1,231.61	£1,385.56	£1,693.46	£2,001.36	£2,309.27	£2,771.12	£3,232.97
Castell-paen	£913.77	£1,066.06	£1,218.36	£1,370.65	£1,675.24	£1,979.83	£2,284.42	£2,741.30	£3,198.18
Pen-y-bont a	£926.26	£1,080.64	£1,235.01	£1,389.39	£1,698.14	£2,006.90	£2,315.65	£2,778.78	£3,241.91

Llandeglau									
Llanandras a Nortyn	£946.45	£1,104.20	£1,261.94	£1,419.68	£1,735.16	£2,050.65	£2,366.13	£2,839.36	£3,312.59
Rhaeadr Gwy	£941.27	£1,098.14	£1,255.02	£1,411.90	£1,725.66	£2,039.41	£2,353.17	£2,823.80	£3,294.43
Llanarmon	£937.15	£1,093.35	£1,249.54	£1,405.73	£1,718.11	£2,030.50	£2,342.88	£2,811.46	£3,280.04
Hwytyn	£920.79	£1,074.25	£1,227.72	£1,381.18	£1,688.11	£1,995.04	£2,301.97	£2,762.36	£3,222.75

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(h) uchod â'r rhif sydd, yn y gyfran a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i'r anheddau a restrir mewn Band Prisio penodol, wedi'i rannu â'r rhif sydd, yn y gyfran honno yn berthnasol i anheddau restrir ym Mand Prisio D, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) o'r Ddeddf, yn symiau y i'w hystyried am y flwyddyn ar gyfer categorïau anheddau a restrir mewn gwahanol Fandiau Prisio.

3.2 NODI bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys wedi datgan y symiau canlynol ar gyfer blwyddyn 2020/21 mewn praeseptau a gyflwynir i'r Cyngor, angen nodi am y flwyddyn 2020/2021 bod yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992, ar gyfer y categorïau anheddau a welir isod:

Bandiau Prisio

A	B	C	D	E	F	G	H	I
£ 173.71	£ 202.66	£ 231.61	£ 260.56	£ 318.46	£ 376.36	£ 434.27	£ 521.12	£ 607.97

3.3 BOD y Cyngor, ar ôl cyfrifo'r cyfanswm ymhob achos ar gyfer y symiau yn 3.1(i) a 3.2 uchod, yn unol ag Adran 30 (2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, trwy hyn yn gosod y symiau canlynol yn symiau Treth y Cyngor am y flwyddyn 2020/2021 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:

SIR FRYCHEINIOG/BRECKNOCKSHIRE

CYMUNED/COMMUNITY

	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Aberhonddu	£1,169.29	£1,364.18	£1,559.06	£1,753.94	£2,143.70	£2,533.47	£2,923.23	£3,507.88	£4,092.53
Bronllys	£1,101.87	£1,285.51	£1,469.16	£1,652.80	£2,020.09	£2,387.38	£2,754.67	£3,305.60	£3,856.53
Llanfair-ym-Muallt	£1,144.71	£1,335.49	£1,526.28	£1,717.06	£2,098.63	£2,480.20	£2,861.77	£3,434.12	£4,006.47
Cilmeri	£1,094.40	£1,276.80	£1,459.20	£1,641.60	£2,006.40	£2,371.20	£2,736.00	£3,283.20	£3,830.40
Crai	£1,109.20	£1,294.07	£1,478.93	£1,663.80	£2,033.53	£2,403.27	£2,773.00	£3,327.60	£3,882.20
Crughywel	£1,110.50	£1,295.58	£1,480.67	£1,665.75	£2,035.92	£2,406.08	£2,776.25	£3,331.50	£3,886.75
Duhonw	£1,090.09	£1,271.77	£1,453.45	£1,635.13	£1,998.49	£2,361.85	£2,725.22	£3,270.26	£3,815.30
Erwyd	£1,097.91	£1,280.90	£1,463.88	£1,646.87	£2,012.84	£2,378.81	£2,744.78	£3,293.74	£3,842.70
Felin-fach	£1,099.32	£1,282.54	£1,465.76	£1,648.98	£2,015.42	£2,381.86	£2,748.30	£3,297.96	£3,847.62
Glyn Tarell	£1,104.53	£1,288.61	£1,472.70	£1,656.79	£2,024.97	£2,393.14	£2,761.32	£3,313.58	£3,865.84
Gwernyfed	£1,093.83	£1,276.13	£1,458.44	£1,640.74	£2,005.35	£2,369.96	£2,734.57	£3,281.48	£3,828.39
Y Gelli Gandryll	£1,121.93	£1,308.91	£1,495.90	£1,682.89	£2,056.87	£2,430.84	£2,804.82	£3,365.78	£3,926.74
Honddu Isaf	£1,086.83	£1,267.97	£1,449.11	£1,630.25	£1,992.53	£2,354.81	£2,717.08	£3,260.50	£3,803.92
Llanafan-fawr	£1,090.57	£1,272.33	£1,454.09	£1,635.85	£1,999.37	£2,362.89	£2,726.42	£3,271.70	£3,816.98
Llanddew	£1,097.31	£1,280.20	£1,463.08	£1,645.97	£2,011.74	£2,377.51	£2,743.28	£3,291.94	£3,840.60
Cwmdu a’r Cylch	£1,097.89	£1,280.87	£1,463.85	£1,646.83	£2,012.79	£2,378.75	£2,744.72	£3,293.66	£3,842.60
Llanfrynach	£1,109.92	£1,294.91	£1,479.89	£1,664.88	£2,034.85	£2,404.83	£2,774.80	£3,329.76	£3,884.72
Llangamarch	£1,110.74	£1,295.86	£1,480.99	£1,666.11	£2,036.36	£2,406.60	£2,776.85	£3,332.22	£3,887.59
Llangatwg	£1,106.33	£1,290.71	£1,475.10	£1,659.49	£2,028.27	£2,397.04	£2,765.82	£3,318.98	£3,872.14
Llan-gors	£1,102.38	£1,286.11	£1,469.84	£1,653.57	£2,021.03	£2,388.49	£2,755.95	£3,307.14	£3,858.33
Llangynidr	£1,099.43	£1,282.67	£1,465.91	£1,649.15	£2,015.63	£2,382.11	£2,748.58	£3,298.30	£3,848.02
Llanigon	£1,095.30	£1,277.85	£1,460.40	£1,642.95	£2,008.05	£2,373.15	£2,738.25	£3,285.90	£3,833.55
Llanwrthwl	£1,101.61	£1,285.21	£1,468.81	£1,652.41	£2,019.61	£2,386.81	£2,754.02	£3,304.82	£3,855.62
Llanwrtyd	£1,116.34	£1,302.40	£1,488.45	£1,674.51	£2,046.62	£2,418.74	£2,790.85	£3,349.02	£3,907.19
Llywel	£1,108.09	£1,292.77	£1,477.45	£1,662.13	£2,031.49	£2,400.85	£2,770.22	£3,324.26	£3,878.30
Maescar	£1,104.71	£1,288.82	£1,472.94	£1,657.06	£2,025.30	£2,393.53	£2,761.77	£3,314.12	£3,866.47

Merthyr Cynog	£1,106.47	£1,290.89	£1,475.30	£1,659.71	£2,028.53	£2,397.36	£2,766.18	£3,319.42	£3,872.66
Talgarth	£1,132.05	£1,320.72	£1,509.40	£1,698.07	£2,075.42	£2,452.77	£2,830.12	£3,396.14	£3,962.16
Tal-y-bont ar Wysg	£1,108.57	£1,293.33	£1,478.09	£1,662.85	£2,032.37	£2,401.89	£2,771.42	£3,325.70	£3,879.98
Tawe Uchaf	£1,118.51	£1,304.92	£1,491.34	£1,677.76	£2,050.60	£2,423.43	£2,796.27	£3,355.52	£3,914.77
Trallong	£1,089.61	£1,271.21	£1,452.81	£1,634.41	£1,997.61	£2,360.81	£2,724.02	£3,268.82	£3,813.62
Treflys	£1,093.24	£1,275.45	£1,457.65	£1,639.86	£2,004.27	£2,368.69	£2,733.10	£3,279.72	£3,826.34
Dyffryn Grwyne	£1,094.17	£1,276.54	£1,458.90	£1,641.26	£2,005.98	£2,370.71	£2,735.43	£3,282.52	£3,829.61
Ysgir	£1,092.16	£1,274.19	£1,456.21	£1,638.24	£2,002.29	£2,366.35	£2,730.40	£3,276.48	£3,822.56
Ystradfellte	£1,114.87	£1,300.69	£1,486.50	£1,672.31	£2,043.93	£2,415.56	£2,787.18	£3,344.62	£3,902.06
Ystradgynlais	£1,149.63	£1,341.24	£1,532.84	£1,724.45	£2,107.66	£2,490.87	£2,874.08	£3,448.90	£4,023.72

SIR DREFALDWYN/MONTGOMERYSHIRE

CYMUNED/COMMUNITY

	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Aberhafesb	£1,101.05	£1,284.56	£1,468.07	£1,651.58	£2,018.60	£2,385.62	£2,752.63	£3,303.16	£3,853.69
Banwy	£1,095.37	£1,277.94	£1,460.50	£1,643.06	£2,008.18	£2,373.31	£2,738.43	£3,286.12	£3,833.81
Bausley gyda Chrugion	£1,099.49	£1,282.74	£1,465.99	£1,649.24	£2,015.74	£2,382.24	£2,748.73	£3,298.48	£3,848.23
Aberriw	£1,091.90	£1,273.88	£1,455.87	£1,637.85	£2,001.82	£2,365.78	£2,729.75	£3,275.70	£3,821.65
Betws Cedewain	£1,102.83	£1,286.63	£1,470.44	£1,654.24	£2,021.85	£2,389.46	£2,757.07	£3,308.48	£3,859.89
Cadfarch	£1,096.35	£1,279.07	£1,461.80	£1,644.52	£2,009.97	£2,375.42	£2,740.87	£3,289.04	£3,837.21
Caersws	£1,114.50	£1,300.25	£1,486.00	£1,671.75	£2,043.25	£2,414.75	£2,786.25	£3,343.50	£3,900.75
Carno	£1,109.07	£1,293.92	£1,478.76	£1,663.61	£2,033.30	£2,402.99	£2,772.68	£3,327.22	£3,881.76
Carreghofa	£1,106.48	£1,290.89	£1,475.31	£1,659.72	£2,028.55	£2,397.37	£2,766.20	£3,319.44	£3,872.68
Castell Caereinion	£1,110.03	£1,295.04	£1,480.04	£1,665.05	£2,035.06	£2,405.07	£2,775.08	£3,330.10	£3,885.12
Yr Ystog	£1,101.81	£1,285.44	£1,469.08	£1,652.71	£2,019.98	£2,387.25	£2,754.52	£3,305.42	£3,856.32
Dwyrhiw	£1,096.87	£1,279.69	£1,462.50	£1,645.31	£2,010.93	£2,376.56	£2,742.18	£3,290.62	£3,839.06
Ffordun	£1,107.84	£1,292.48	£1,477.12	£1,661.76	£2,031.04	£2,400.32	£2,769.60	£3,323.52	£3,877.44
Glantwymyn	£1,095.26	£1,277.80	£1,460.35	£1,642.89	£2,007.98	£2,373.06	£2,738.15	£3,285.78	£3,833.41
Cegidfa	£1,095.75	£1,278.38	£1,461.00	£1,643.63	£2,008.88	£2,374.13	£2,739.38	£3,287.26	£3,835.14
Ceri	£1,101.95	£1,285.60	£1,469.26	£1,652.92	£2,020.24	£2,387.55	£2,754.87	£3,305.84	£3,856.81
Llanbrynmair	£1,101.11	£1,284.63	£1,468.15	£1,651.67	£2,018.71	£2,385.75	£2,752.78	£3,303.34	£3,853.90
Llandinam	£1,139.67	£1,329.62	£1,519.56	£1,709.51	£2,089.40	£2,469.29	£2,849.18	£3,419.02	£3,988.86
Llandrinio ac Arddlîn	£1,099.81	£1,283.11	£1,466.41	£1,649.71	£2,016.31	£2,382.91	£2,749.52	£3,299.42	£3,849.32
Llandysilio	£1,103.80	£1,287.77	£1,471.73	£1,655.70	£2,023.63	£2,391.57	£2,759.50	£3,311.40	£3,863.30
Aber-miwl a Llandysul	£1,116.09	£1,302.10	£1,488.12	£1,674.13	£2,046.16	£2,418.19	£2,790.22	£3,348.26	£3,906.30
Llanerfyl	£1,097.67	£1,280.61	£1,463.56	£1,646.50	£2,012.39	£2,378.28	£2,744.17	£3,293.00	£3,841.83
Llanfair Caereinion	£1,117.02	£1,303.19	£1,489.36	£1,675.53	£2,047.87	£2,420.21	£2,792.55	£3,351.06	£3,909.57

Llanfechain	£1,101.82	£1,285.46	£1,469.09	£1,652.73	£2,020.00	£2,387.28	£2,754.55	£3,305.46	£3,856.37
Llanfihangel	£1,117.68	£1,303.96	£1,490.24	£1,676.52	£2,049.08	£2,421.64	£2,794.20	£3,353.04	£3,911.88
Llanfyllin	£1,114.41	£1,300.15	£1,485.88	£1,671.62	£2,043.09	£2,414.56	£2,786.03	£3,343.24	£3,900.45
Llangedwyn	£1,093.69	£1,275.98	£1,458.26	£1,640.54	£2,005.10	£2,369.67	£2,734.23	£3,281.08	£3,827.93
Llangurig	£1,091.39	£1,273.29	£1,455.19	£1,637.09	£2,000.89	£2,364.69	£2,728.48	£3,274.18	£3,819.88
Llangynyw	£1,103.34	£1,287.23	£1,471.12	£1,655.01	£2,022.79	£2,390.57	£2,758.35	£3,310.02	£3,861.69
Llangynog	£1,117.00	£1,303.17	£1,489.33	£1,675.50	£2,047.83	£2,420.17	£2,792.50	£3,351.00	£3,909.50
Llanidloes	£1,173.07	£1,368.59	£1,564.10	£1,759.61	£2,150.63	£2,541.66	£2,932.68	£3,519.22	£4,105.76
Llanidloes Allanol	£1,104.95	£1,289.10	£1,473.26	£1,657.42	£2,025.74	£2,394.05	£2,762.37	£3,314.84	£3,867.31
Llanrhaeadr-ym-Mochnant	£1,096.97	£1,279.80	£1,462.63	£1,645.46	£2,011.12	£2,376.78	£2,742.43	£3,290.92	£3,839.41
Llansantffraid	£1,101.57	£1,285.16	£1,468.76	£1,652.35	£2,019.54	£2,386.73	£2,753.92	£3,304.70	£3,855.48
Llansilin	£1,089.86	£1,271.50	£1,453.15	£1,634.79	£1,998.08	£2,361.36	£2,724.65	£3,269.58	£3,814.51
Llanwddyn	£1,130.13	£1,318.48	£1,506.84	£1,695.19	£2,071.90	£2,448.61	£2,825.32	£3,390.38	£3,955.44
Machynlleth	£1,228.15	£1,432.84	£1,637.53	£1,842.22	£2,251.60	£2,660.98	£3,070.37	£3,684.44	£4,298.51
Manafon	£1,101.83	£1,285.46	£1,469.10	£1,652.74	£2,020.02	£2,387.29	£2,754.57	£3,305.48	£3,856.39
Meifod	£1,097.67	£1,280.62	£1,463.56	£1,646.51	£2,012.40	£2,378.29	£2,744.18	£3,293.02	£3,841.86
Mochdre gyda Phenystrywaid	£1,103.17	£1,287.04	£1,470.90	£1,654.76	£2,022.48	£2,390.21	£2,757.93	£3,309.52	£3,861.11
Trefaldwyn	£1,125.53	£1,313.12	£1,500.71	£1,688.30	£2,063.48	£2,438.66	£2,813.83	£3,376.60	£3,939.37
Y Drenewydd a Llanllwchaearn	£1,202.45	£1,402.85	£1,603.26	£1,803.67	£2,204.49	£2,605.30	£3,006.12	£3,607.34	£4,208.56
Pen-y-bont-fawr	£1,117.87	£1,304.19	£1,490.50	£1,676.81	£2,049.43	£2,422.06	£2,794.68	£3,353.62	£3,912.56
Trefeglwys	£1,092.69	£1,274.81	£1,456.92	£1,639.04	£2,003.27	£2,367.50	£2,731.73	£3,278.08	£3,824.43
Tregynon	£1,109.64	£1,294.58	£1,479.52	£1,664.46	£2,034.34	£2,404.22	£2,774.10	£3,328.92	£3,883.74
Trewern	£1,104.45	£1,288.53	£1,472.60	£1,656.68	£2,024.83	£2,392.98	£2,761.13	£3,313.36	£3,865.59
Y Trallwng	£1,229.28	£1,434.16	£1,639.04	£1,843.92	£2,253.68	£2,663.44	£3,073.20	£3,687.84	£4,302.48

SIR FAESYFED/RADNORSHIRE

CYMUNED/COMMUNITY

	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Abaty Cwm-hir	£1,102.73	£1,286.52	£1,470.31	£1,654.10	£2,021.68	£2,389.26	£2,756.83	£3,308.20	£3,859.57
Aberedw	£1,087.75	£1,269.05	£1,450.34	£1,631.63	£1,994.21	£2,356.80	£2,719.38	£3,263.26	£3,807.14
Bugeildy	£1,099.83	£1,283.13	£1,466.44	£1,649.74	£2,016.35	£2,382.96	£2,749.57	£3,299.48	£3,849.39
Cleirwy	£1,091.41	£1,273.32	£1,455.22	£1,637.12	£2,000.92	£2,364.73	£2,728.53	£3,274.24	£3,819.95
Diserth a Threcoed	£1,098.20	£1,281.23	£1,464.27	£1,647.30	£2,013.37	£2,379.43	£2,745.50	£3,294.60	£3,843.70
Llanfair Llythynwg	£1,092.25	£1,274.29	£1,456.33	£1,638.37	£2,002.45	£2,366.53	£2,730.62	£3,276.74	£3,822.86
Y Clas-ar-Wy	£1,096.33	£1,279.06	£1,461.78	£1,644.50	£2,009.94	£2,375.39	£2,740.83	£3,289.00	£3,837.17
Glascwm	£1,094.33	£1,276.72	£1,459.11	£1,641.50	£2,006.28	£2,371.06	£2,735.83	£3,283.00	£3,830.17
Tref-y-Clawdd	£1,119.53	£1,306.11	£1,492.70	£1,679.29	£2,052.47	£2,425.64	£2,798.82	£3,358.58	£3,918.34
Llanbadarn Fawr	£1,096.37	£1,279.10	£1,461.83	£1,644.56	£2,010.02	£2,375.48	£2,740.93	£3,289.12	£3,837.31
Llanbadarn Fynydd	£1,104.16	£1,288.19	£1,472.21	£1,656.24	£2,024.29	£2,392.35	£2,760.40	£3,312.48	£3,864.56
Llanbister	£1,107.70	£1,292.32	£1,476.93	£1,661.55	£2,030.78	£2,400.02	£2,769.25	£3,323.10	£3,876.95
Llanddewi Ystradenni	£1,090.85	£1,272.66	£1,454.47	£1,636.28	£1,999.90	£2,363.52	£2,727.13	£3,272.56	£3,817.99
Llandrindod	£1,134.01	£1,323.01	£1,512.01	£1,701.01	£2,079.01	£2,457.01	£2,835.02	£3,402.02	£3,969.02
Llanelwedd	£1,093.03	£1,275.21	£1,457.38	£1,639.55	£2,003.89	£2,368.24	£2,732.58	£3,279.10	£3,825.62
Llanfihangel	£1,103.81	£1,287.78	£1,471.75	£1,655.72	£2,023.66	£2,391.60	£2,759.53	£3,311.44	£3,863.35
Llangunllo	£1,096.09	£1,278.77	£1,461.45	£1,644.13	£2,009.49	£2,374.85	£2,740.22	£3,288.26	£3,836.30
Llanllŷr	£1,099.49	£1,282.74	£1,465.99	£1,649.24	£2,015.74	£2,382.24	£2,748.73	£3,298.48	£3,848.23
Nantmel	£1,104.86	£1,289.00	£1,473.15	£1,657.29	£2,025.58	£2,393.86	£2,762.15	£3,314.58	£3,867.01
Maesyfed	£1,103.23	£1,287.10	£1,470.97	£1,654.84	£2,022.58	£2,390.32	£2,758.07	£3,309.68	£3,861.29
Pencraig	£1,097.41	£1,280.32	£1,463.22	£1,646.12	£2,011.92	£2,377.73	£2,743.53	£3,292.24	£3,840.95
Castell-paen	£1,087.47	£1,268.72	£1,449.96	£1,631.21	£1,993.70	£2,356.19	£2,718.68	£3,262.42	£3,806.16

Pen-y-bont a Llandeglau	£1,099.97	£1,283.29	£1,466.62	£1,649.95	£2,016.61	£2,383.26	£2,749.92	£3,299.90	£3,849.88
Llanandras a Nortyn	£1,120.16	£1,306.85	£1,493.55	£1,680.24	£2,053.63	£2,427.01	£2,800.40	£3,360.48	£3,920.56
Rhaeadr Gwy	£1,114.97	£1,300.80	£1,486.63	£1,672.46	£2,044.12	£2,415.78	£2,787.43	£3,344.92	£3,902.41
Llanarmon	£1,110.86	£1,296.00	£1,481.15	£1,666.29	£2,036.58	£2,406.86	£2,777.15	£3,332.58	£3,888.01
Hwytyn	£1,094.49	£1,276.91	£1,459.32	£1,641.74	£2,006.57	£2,371.40	£2,736.23	£3,283.48	£3,830.73

Cynigiwyd yr argymhelliad gan yr Aelod Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Chludiant, ac fe'i eiliwyd ef gan y Cynghorydd Sir Tim Van-Rees, ac o 29 pleidlais i 20, gydag un cynghorydd yn atal ei bleidlais,

PENDERFYNWYD

1. **BOD y Cyngor yn cymeradwyo'r symiau a geir ym mharagraff 3.1 uchod gan y am y flwyddyn 2020/2021, yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992.**

2. **BOD y Cyngor, yn unol ag Adran 30 (2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, trwy hyn yn gosod y symiau a geir ym mharagraff 3.3 yn symiau Treth y Cyngor am y flwyddyn 2020/2021 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir.**

9.	**ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2020/2021 O WELEDIGAETH 2025, EIN CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL, GAN GYNNWYS EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024**

Ystyriodd y Cyngor ddiweddariad o Weledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol (CIP). Canlyniad adolygiad trylwyr o'r weithgareddau a'r mesurau perfformiad diweddar oedd y CIP diwygiedig. Roedd y Diweddariad ar CIP 2020 hefyd yn cynnwys set o Amcanion Cydraddoldeb newydd arfaethedig i'w gweithredu o Ebrill 2020 ymlaen.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Trawsnewid y gallai'r cyhoedd ddefnyddio'r dull a oedd orau ganddynt i gysylltu â'r Cyngor boed hynny'n ddigidol, wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn. Dywedodd fod fersiwn hawdd ei ddeall o'r ddogfen yn cael ei gynhyrchu, ac ymrwymodd i ddod ag inffograffeg yn ôl ar brofiad pobl o ryngweithio â'r Cyngor dros y 12 mis nesaf. Mewn ymateb i gwestiwn am waith partneriaeth ar ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd, dywedodd fod y Cyngor yn cydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfathrebu ac ymgysylltu. Roedd y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac roeddent yn ceisio arian gan Lywodraeth Cymru i benodi swyddog cyfathrebu ac ymgysylltu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mewn ymateb i bwynt am y toriadau i'r gyllideb celfyddyd a diwylliant, cydnabu'r Aelod Portffolio Pobl Ifanc a Diwylliant rôl y celfyddydau a diwylliant yn yr agenda iechyd a llesiant, a dywedodd fod y Bwrdd Iechyd newydd recriwtio swyddog y celfyddydau. Byddai hi'n dwyn ynghyd bartneriaid y bwrdd Iechyd (PTHB) a'r sector gwirfoddol i archwilio'r cyfleoedd ar gyfer comisiynu'r celfyddydau a diwylliant.

Mewn ymateb i gwestiwn ar beth yr oedd y cyngor yn ei wneud i gau'r bwlch cyflog rhwng pobl anabl a phawb arall, a rhwng y rhywiau, cafodd yr Aelodau wybod bod y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau wedi lleihau o 9.9% i 8.25% yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd yn rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn gwneud popeth o fewn ei allu yn ei brosesau recriwtio a chadw staff i gefnogi merched a

phobl ag anableddau. Roedd gofyn i bob rheolwr gael hyfforddiant recriwtio mwy diogel.

Mewn ymateb i bwynt nad oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw beth am unrhyw dargedau nas cyrhaeddwyd, dywedodd yr Arweinydd ei bod yn fodlon cynnwys adran yn ei rhagair ac eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Trawsnewid y byddai rhagor o fanylion ar hyn yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir mis Gorffennaf.

Cynigiwyd gan yr Arweinydd ac eiliwyd gan yr is-Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Cefn gwlad a Chludiant, ac o 51 pleidlais i 0,

PENDERFYNWYD

1. **Y byddai Diweddariad 2020 Gweledigaeth 2025: Ein CIP (fel yr amlinellwyd yn Atodiad A) yn cael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi, a'i roi ar waith o Ebrill 2020.**

2. **Bod y chwech Amcan Cydraddoldeb newydd gan gynnwys eu gweithgareddau a'u mesurau ategol (a amlinellir yn Atodiad A) yn cael eu cymeradwyo i'w cyhoeddi yn Niweddariad 2020 CIP, a'i roi ar waith o Ebrill 2020.**

3. **Bod amserlen y CIP yn cael ei ymestyn o 2023 i 2-25 er mwyn cyd-fynd â Gweledigaeth 2025.**

10.	DATGANIAD POLISI CYFLOGAU

Dywedodd y Swyddog Monitro bod gan yr holl swyddogion fuddiant, ond ceisiodd oddefeb oddi wrth y Cyngor i'r Arweinydd Proffesiynol - Gwasanaethau Cyflogaeth, y Swyddogion Cymorth TG a'r cyfieithydd gael aros er mwyn cynorthwyo'r cyfarfod. Cynigiwyd hyn gan yr Is-gadeirydd ac eiliwyd ef gan y Dirprwy Is Gadeirydd a

PHENDERFYNWYD cyflwyno goddefeb i'r Arweinydd Proffesiynol - Gwasanaethau Cyflogaeth, y Swyddogion Cymorth TG a'r cyfieithydd i aros i gynorthwyo gyda'r cyfarfod.

Gadawodd pob swyddog arall y cyfarfod.

Ystyriodd y Cyngor y Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer 2020-21. Eglurodd swyddogion fod y Cyngor yn cyflogi nifer o staff llanw, yn hytrach na staff ar gontract dim oriau, a dywedodd y byddai'n rhoi gwybod i'r Aelodau am nifer y staff dan sylw. Cytunodd yr Aelod Portffolio Cyllid edrych ar bosibilrwydd optio allan o NJC i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn creu cysylltiad rhwng cyflog â chyflenwi amcanion y Cyngor.

Cynigiwyd hyn gan yr Aelod Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Chludiant, ac eiliwyd ef gan y Cyngor Sir James Evans, ac o 46 pleidlais i 0, gyda 3 yn atal eu pleidlais,

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad polisi cyflog i sicrhau cydymffurfiad ag adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011.

11. HYSBYSIAD O GYNNIG

Trafododd y Cyngor yr hysbysiad o gynnig gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies.

"Yn wyneb y ffaith fod Cyngor Sir Powys wedi talu bron £4m am orchmynion cau ceg; a elwir yn dechnegol yn gytundebau cyfaddawdu neu setlo; rhwng 2005 a 2019; gyda 105 o gytundebau peidio â datgelu (NDA); mae'r Cyngor yn galw ar i bob cytundeb a thaliad dros £5k gael ei gymeradwyo gan aelod o'r Cabinet, a chyflwyno adroddiad diweddaru bob chwarter i'r Pwyllgor Archwilio, er mwyn sicrhau gonestrwydd a thryloywder ."

Wrth gynnig y rhybudd, dadleuodd y Cynghorydd Sir Vaughan fod angen rhagor o atebolrwydd a thryloywder, a bod angen i ddiwylliant y Cyngor newid.

Cynigodd y Cynghorydd Amanda Jenner welliant. Gohiriwyd y Cyngor am 12:09 ac ailgynullwyd am 12:23. Dangosodd cynigydd ac eilydd y cynnig eu bod yn fodlon cefnogi gwelliant y Cynghorydd Jenner:

"Mae'r Cyngor yn galw ar i gyfanswm nifer y cytundebau setlo a Chytundebau NDA, yn ogystal ag enghreifftiau di-enw o gytundebau setlo a Chytundebau NDA, gael eu dwyn gerbron y Pwyllgor Archwilio'n flynyddol i adolygu eu telerau, gyda golwg ar gyflwyno adroddiad pellach ac argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor os tybir bod angen gwneud hyn."

Cymeradwywyd y gwelliant gan y Cynghorydd Sir Jenner a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Michael Williams, ac o 46 pleidlais i 0,

PENDERFYNWYD bod y Cyngor i alw am ddod â niferoedd cytundebau setlo ac NDA a drefnwyd, ynghyd ag enghreifftiau di-enw o gytundebau setlo ac NDA, i'r Pwyllgor Archwilio yn flynyddol i adolygu'u telerau, gyda'r bwriad o adrodd ymhellach a chyflwyno argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor pe byddai hynny'n cael ei dybio'n angenrheidiol.

12. CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD

12.1. **Cwestiwn i'r Adeilad Portffolio ar faterion yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir David Selby.**

A all yr Aelod Portffolio gadarnhau bod statws cefnffordd bellach wedi'i dynnu oddi ar yr hen briffordd trwy'r Drenewydd (A483), ac felly a all hi gadarnhau pa waith sydd bellach wedi'i gynllunio ar Ffordd Llanidloes i wella arwyneb y ffordd er mwyn sicrhau diogelwch cerddwyr a beicwyr?

Ymateb
Er mai 14 Chwefror 2020 yw'r dyddiad a ddewiswyd ar gyfer trosglwyddiad swyddogol y cyfrifoldeb am rannau o'r cefnffyrdd sydd bellach wedi'u disodli gan ffordd osgoi newydd y Drenewydd, nid yw'r broses ffurfiol eto wedi'i chwblhau.
Rydym yn rhagweld y bydd Llywodraeth Cymru yn cwblhau'r mater ffurfiol yn fuan iawn, ac yna gallwn ninnau fanylu ar ein cynlluniau cynnal a chadw a thrwsio. Hyd hynny, nid oes gennym fecanwaith i gyflawni'r gwaith sylweddol a ddisgwylir.

Gan nad oedd yr Aelod Portffolio'n bresennol, dywedodd Cyngor Sir Selby y byddai'n cyflwyno ei gwestiwn atodol dan y cynllun i holi'r Aelod Portffolio unrhyw bryd.

12.2. **Cwestiwn i Aelod Portffolio Llywodraethiant ac Ymgysylltiad Corfforaethol oddi wrth y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

A all yr aelod Cabinet ddweud wrthyf i a'r aelodau eraill, gan ddefnyddio cyfansymiau, sawl cytundeb peidio â datgelu (NDA) a drefnodd Cyngor Sir Powys yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, gan gynnwys y gost ariannol, ac a oes modd dangos pob blwyddyn ar wahân? A ellir dangos y cyfanswm cost ariannol NDA fesul blwyddyn?

Ymateb
Chwefror 2018 i Chwefror 2019 – 7 Cytundeb Setlo. Cyfanswm (gan gynnwys costau statudol) £336, 037.07
Chwefror 2019 i Chwefror 2020 – 3 Chytundeb Setlo. Cyfanswm (gan gynnwys costau statudol) £71, 170.98

Er gwybodaeth, mae'r cytundebau hyn, o'r enw Cytundebau Setlo, yn safonol, ac mae'n RHAID i'r gweithiwr gael cyngor cyfreithiol cyn dod â'r cytundeb i ben. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth, Pennaeth y Gweithlu a'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn eu cymeradwyo cyn eu trefnu.

Nid ydynt yn cael eu galw'n setliadau peidio â datgelu (NDA), ond maen nhw'n cynnwys cymal cyfrinachedd sy'n gosod rhwymedigaeth ar y naill ochr a'r llall (y cyflogwr a'r gweithiwr) am y cytundeb a'i delerau, gan gadw popeth yn gyfrinachol rhwng y ddwy ochr ac atal y naill ochr a'r llall rhag gwneud unrhyw sylwadau difrïol am ei gilydd. Mae ACAS a'r Undebau'n cymeradwyo'r defnydd o'r cytundebau hyn, sy'n safonol yng Nghymru a Lloegr, yn gyhoeddus ac yn breifat.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Williams, dywedodd yr Aelod Portffolio nad oedd unrhyw gostau diswyddo'n gysylltiedig â'r achosion hyn.

12.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol Oedolion gan y Cynghorydd Francesca Jump.**

Byddwn i gyd yn ymwybodol o adroddiadau diweddar yn y wasg ynglyn â'r anawsterau a brofwyd mewn rhai rhannau o Bowys wrth drefnu gofal yn y cartref i bobl ag anghenion gofal a chefnogaeth. A all yr Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol Oedolion roi gwybod i'r Cyngor beth yw'r sefyllfa gyfredol o ran pobl yn aros am wasanaethau; faint o bobl sy'n dal i aros ar hyn o bryd am

ofal yn y cartref heb gymorth. Beth yw'r cyfnod aros ar gyfartaledd am ofal yn y cartref, a beth yw'r cyfnod aros hwyaf? Yn ogystal â hyn, a all yr Aelod Portffolio ddweud wrth y Cyngor beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn?

Ymateb
Fel pob Cynghorydd, ac yn enwedig fel yr Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol Oedolion, rwy'n pryderu am yr anawsterau ry'n ni'n eu cael wrth ddarparu gofal yn y cartref i unigolion ym Mhowys. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod unigolion sydd ag angen gofal yn cael y gefnogaeth briodol.

Ar 1 Chwefror 2020, roedd Cyngor Sir Powys yn darparu/yn comisiynu 12,285 awr o ofal yn y cartref bob wythnos i 749 o unigolion ar hyd a lled y sir. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth gofal yn y cartref uniongyrchol, gwasanaethau gofal yn y cartref wedi'u comisiynu, gwasanaethau yn y cartref 24/7 a gwasanaethau gwarchod. Ar 1 Chwefror 2020, cyflenwodd y gwasanaethau mewnol gofal yn y cartref 1418 o oriau o ofal a chefnogaeth bob wythnos, cyfwerth â 14.01% o'r farchnad. Bydd y 85.99% sy'n weddill yn cael ei gyflenwi gan sefydliadau preifat ac elusennol.

Hefyd mae yna 490 o unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol i brynu gofal bob wythnosol, ynghyd â phobl sy'n derbyn gofal a chymorth trwy eu trefniadau byw gofal ychwanegol.

Am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys methiant comisiynu gofal yn y cartref yn 2014, y pwysau ariannol ar y Cyngor, a'r pwysau demograffaidd sy'n effeithio ar recriwtio, mae darparu gofal yn y cartref ym Mhowys yn anodd.

Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i reoli'r galw am ofal yn y cartref; i ddarparu cefnogaeth o ffynonellau eraill ac i gyflenwi'r galw'n wahanol, yn ogystal ag i gynyddu ein gallu i wneud hynny.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad yma, roedd 35 o unigolion yn aros am ofal heb unrhyw ddarpariaeth ar y pryd (403 awr yr wythnos). Erbyn Medi 2019 roedd 40 o unigolion yn y sefyllfa yma. O'r 35 unigolyn cyfredol, mae saith ohonynt naill ai wedi gwrthod cynigion gofal am amrywiaeth o resymau, neu wedi penderfynu y byddai darpariaeth gofal arall yn fwy addas i ddiwallu'u hanghenion. O'r rheiny sydd wedi aros a heb dderbyn unrhyw gynnig o ofal, mae un unigolyn wedi bod yn aros am 169 diwrnod. Mae hyn yn eithriadol, fodd bynnag. Mae'r unigolyn dan sylw yn un o ddim ond dau sydd wedi bod yn aros am fwy na 100 diwrnod heb gael cynnig darpariaeth gofal.

Yn Chwarter 3 yn 2018/19, 28 diwrnod ar gyfartaledd oedd y cyfnod o ddechrau'r froceriaeth cyn i ddarparwyr ddarparu gofal. Yn Chwarter 3 yn 2019/20, roedd y cyfnod yn 33 diwrnod. Mae hyn yn dangos yr heriau wrth brynu gofal ac mae'r adlewyrchu'r heriau gwledig y mae'r awdurdodau cyfagos yn eu profi.
Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud eisoes yn dangos ambell arwydd o lwyddiant. Mae cyfanswm yr unigolion sy'n derbyn gofal yn y cartref wedi lleihau ac mae nifer yr oriau a ddarperir hefyd wedi lleihau. 15.1 awr yr wythnos fesul unigolyn oedd y pecyn gofal yn y cartref ar gyfartaledd ym mis Chwefror 2018. 14.5 awr yr wythnos ydyw erbyn hyn. Ar ddiwedd 2017, 42% oedd canran y galwadau gofal yn y cartref lle roedd angen dau ofalwr. Bellach mae'r ganran honno'n 36%.

Mae’r gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi’r sefyllfa yn cynnwys:

- Ail-lunio’r Galw
- TEC (Gofal sy'n cael ei Alluogi gan Dechnoleg) – Mae Cyngor Sir wedi buddsoddi’n drwm mewn ffurfiau newydd ar gymorth yn y cartref, gan gynnwys Gofal sy'n cael ei Alluogi gan Dechnoleg. Roedd nifer yr unigolion a gefnogwyd ers Ebrill 2019 dros 500; yn achos y 510 y rhoddwyd TEC iddynt, amcangyfrifir mai £420k oedd cyfanswm net y costau sy’n cael eu hosgoi;
- Symud gydag Urddas (Gofal gan un Gofalwr) - yn dilyn cynllun arbrofol llwyddiannus, mae’r Cyngor wedi buddsoddi mewn dau therapydd galwedigaethol a chyfarpar i alluogi lleihau’r angen am ymweliad gan ddau weithiwr gofal i ymweld â rhai defnyddwyr gwasanaeth;
- Gweithio ar Sail Cryfder - mae’r adran gwasanaethau cymdeithasol yn gyffredinol wedi mabwysiadu dull seiliedig ar gryfder wrth drin gofal cymdeithasol, a’i nod yw grymuso pobl a’u cefnogi i ymgysylltu â’u cymunedau.
- Cysylltwyr Cymunedol a Capasiti 3ydd Sector - mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys wedi comisiynu 4 yn rhagor (o gyfanswm o 13) o Gysylltwyr Cymunedol i weithio ar draws y sir gyda’r nod o gefnogi ymgysylltiad unigolion â grwpiau cymunedol a chymdeithasol;
- Ask Sara – Mae'r Cyngor yn buddsoddi yn ei wasanaethau gwybodaeth a chyngor er mwyn galluogi pobl i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu hanghenion, a sut i'w diwallu. Mae hyn yn cynnwys comisiynu “AskSara”;
- Cynlluniau Arbrofol Cymorth Seiliedig yn y Cartref - mae’r Cyngor wedi buddsoddi mewn cynlluniau arbrofol ar draws Sir Faesyfed a de Sir Drefaldwyn sy'n darparu cymorth rhagweithiol yn ôl yr angen 24/7 a gwasanaeth ymateb cyflym i bobl sy’n defnyddio’u larymau Gofal sy’n cael eu Galluogi gan Dechnoleg;
- Adolygu – mae’r Cyngor yn gweithio i sicrhau bod adolygiadau o wasanaethau gofal yn cael eu cynnal yn brydlon ac yn rheolaidd, ochr yn ochr â’r darparwyr, a’u bod yn effeithiol wrth ryddhau gallu gofal yn y cartref lle bo hyn yn briodol.
- Cwrdd â'r Galw
- Ailalluogi – mae’r gwasanaeth ailalluogi’n gweithio gyda therapyddion o’r bwrdd iechyd ac mae’n llwyddo i gynorthwyo pobl sy'n dychwelyd i’r cartref ac yn lleihau dibyniaeth;
- Taliadau Uniongyrchol - mae Powys yn un o’r awdurdodau arweiniol yng Nghymru wrth ddarparu taliadau uniongyrchol (ar hyn o bryd mae gan 490 o bobl drefniadau Taliadau Uniongyrchol ac yn prynu eu gofal y maen nhw’u hunain wedi'i ddewis. Mae’r niferoedd yn parhau i gynyddu a gwerth y gofal sy'n cael ei ddarparu trwy daliadau uniongyrchol erbyn hyn yn werth tua hanner y gyllideb gofal yn y cartref. Rydym yn bwriadu rhoi datrysiad digidol ar waith i greu rhagor o gymhellion a mwy o effeithlonrwydd wrth brosesu Taliadau Uniongyrchol ac annog pobl i wneud cais amdanynt a galluogi'r rhai sy'n eu defnyddio i gael eu cyfateb â Chynorthwywyr Personol posibl;
- System Brynu Ddynamig (DPS) – mae Uned Gomisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mabwysiadu dull newydd o brynu oddi wrth ddarparwyr gofal yn y cartref.
- Gofal sy'n Canolbwyntio ar Ddeilliannau - rydym yn gweithio gyda darparwr i ddatblygu gwasanaeth gofal sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau mewn un ardal yng ngogledd Powys.

- Dulliau Amgen Tymor Byr – rydym wedi bwcio gwelyau gofal preswyl er mwyn i bobl symud allan o'r ysbyty ac yn agosach at eu cartref wrth iddyn nhw aros am ofal yn y cartref. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio'n rheolaidd:
- Cefnogi Darparwyr
- Cofrestriad RISCA – Rydym wedi talu ffioedd cofrestru holl weithwyr gofal yn y cartref ym Mhowys;
- Recriwtio – Rydym wedi bod yn gweithio gyda darparwyr i gynnal achlysuron recriwtio mewn gwahanol ardaloedd o Bowys. Mae nifer dda wedi mynychu'r rhain ac mae'r cyfarfodydd yn parhau;
- Defnydd gorau o gapasiti sy'n bodoli yn barod – rydym yn gweithio ar wahanol ffyrdd o ddarparu ymweliadau i roi meddyginiaeth, ymweliadau i baratoi cinio a seibiant mewn cartref.
- Gofal ychwanegol - mae Powys wrthi'n datblygu dewisiadau amgen o ran Tai Gofal Ychwanegol
- Cynyddu'r Gallu
- Gwaith Microfenter – rydym wedi comisiynu cwmni nid-er-elw o'r enw Community Catalysts sy'n gweithio i gefnogi datblygiad busnesau gofal bychain mewn ardaloedd gwledig.
- Cynyddu darpariaeth gofal mewnol - rydym wedi cynyddu'r oriau sydd ar gael i'r gwasanaeth gofal yn y cartref dros y gaeaf er mwyn cynorthwyo trosglwyddiad gofal o'r ysbyty;
- Mae'r meini prawf blaenoriaethu ar gyfer y tîm 'pontio' mewnol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru. Rhoddir y flaenoriaeth i bobl sydd wedi bod yn aros am ofal a chymorth am gyfnodau hwy.
- Cyfnewid pecynnau - rydym yn gweithio gyda darparwyr gofal yn y cartref i gyfnewid pecynnau rhwng gwahanol ddarparwyr lle bo modd er mwyn gallu gwneud 'teithiau' mwy effeithlon. Mae hyn yn cynyddu gallu'r farchnad ehangach;
- Datblygwyd cynllun cyfathrebu sy'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a denu rhagor o bobl i weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i baratoi dull strategol o ariannu gofal yn y cartref ym Mhowys yn y tymor hir.

Hyderaf felly ei bod yn eglur bod llawer o waith yn cael ei wneud i wella'r sefyllfa o ran darparu gofal yn y cartref ym Mhowys.
Yn olaf, mae hefyd yn werth nodi nad yw Powys ar ei phen ei hun yn hyn o beth. Mae'r prinder gofalwyr yn y cartref a'r heriau o ran darparu gwasanaeth i'w gweld ar hyd a lled Cymru, fel y cadarnha'r cyfryngau cenedlaethol diweddar mewn perthynas ag anawsterau mewn awdurdod cyfagos. Mae ariannu gofal cymdeithasol yn her genedlaethol ac mae'n dda gweld bod gwaith yn mynd rhagddo ar lefel Llywodraeth Cymru i ystyried y ffordd orau o ariannu gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Jump ynghylch cynlluniau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer ymateb i'r achosion o'r coronafeirws, dywedodd yr Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol Oedolion fod y gwasanaeth yn cynllunio ar gyfer y sefyllfa waethaf bosibl. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Plant ac Oedolion) fod y gwasanaeth yn edrych ar gynllunio senarios a nodi'r gweithgareddau fyddai'n hanfodol i'r gwaith er mwyn blaenoriaethu ymweliadau gofal hanfodol. Roedd PTHB wedi dweud y byddent yn ymweld â chartrefi'r rhai a oedd wedi'u hynysu. Byddent yn sicrhau bod yr Aelodau'n cael gwybod.

13.	CYNNIG BRYS

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn caniatáu'r cynnig brys canlynol gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt:

1. Bod Rheol 4.27 y Cyfansoddiad yn cael ei hatal am gyfnod cychwynnol o 6 mis i ganiatáu i'r Aelodau fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o bell pe byddai angen oherwydd problemau fyddai'n codi yn sgil firws y COVID-19.

2. Bod y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Cyngor a/neu Gadeiryddion Pwyllgorau, (fel y bo'n briodol), yn pennu p'un a fyddai cyfarfod â phresenoldeb o bell yn briodol.

3. Bod Cadeirydd y Cyngor yn penderfynu a ddylid ymestyn hyn y tu hwnt i'r cyfnod 6 mis cychwynnol ai peidio.

Esboniodd y Cynghorydd Roberts y byddai hyn yn galluogi busnes y Cyngor i barhau trwy Skype neu Teams.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bod rheoliadau cyfredol Llywodraeth Cymru'n gosod cyfyngiadau ar bresenoldeb o bell. Roedd yn gobeithio, o ystyried y sefyllfa gyfredol, y byddent yn cyflwyno rheoliadau diwygiedig i ganiatáu presenoldeb o bell. Dywedodd y byddai presenoldeb o bell ar gyfer pwyllgor rheoleiddio, megis Cynllunio, yn anodd.

O 45 pleidlais i 0,

PENDERFYNWYD

1. **Bod Rheol 4.27 y Cyfansoddiad yn cael ei hatal am gyfnod cychwynnol o 6 mis i ganiatáu i'r Aelodau fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o bell pe byddai angen oherwydd problemau fyddai'n codi yn sgil firws y COVID-19.**

2. **Bod y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Cyngor a/neu Gadeiryddion Pwyllgorau, (fel y bo'n briodol), yn pennu p'un a fyddai cyfarfod â phresenoldeb o bell yn briodol.**

3. **Bod Cadeirydd y Cyngor yn pennu a ddylid ymestyn hyn y tu hwnt i'r cyfnod 6 mis cychwynnol ai peidio.**

14.	DATGANIAD GAN Y CABINET

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio ar faterion Datblygu Economaidd, Tai a Gwasanaethau rheoleiddio ddatganiad ar ymateb y Cyngor i newid yn yr

hinsawdd. Dywedodd bod y Cabinet wedi comisiynu adolygiad o strategaethau a pholisïau'r Cyngor yn y maes yma, ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Cyngor yn y dyfodol agos. Roedd yr Arweinydd yn bwriadu llunio gweithgor trawsbleidiol a chynnal trafodaethau bord gron gyda CLlLC, yr undebau amaeth a grwpiau amgylcheddol.

Y Cynghorydd Sir B Baynham (Cadeirydd)